Social Research Number:
54/2024

Publication date:
18/07/2024

# Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Papur Crynodeb 3

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-315-0

Teitl: Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Papur Crynodeb 3

Is-deitl: Cymorth i ffoaduriaid a mudwyr

Awdur(on): Anna Burgess, Paula Gallagher, Sarah Usher, Jakob Abekhon, Andy Parkinson, Eddie Knight a Shanti Rao

Adroddiad Ymchwil Llawn: Burgess, A., Gallagher, P., Usher, S., Abekhon, J., Parkinson, A., Knight, E. a Rao, S. (2024). *Gwerthusiad o Wasanaeth Cymru'n Gweithio: Papur Crynodeb 3.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 54/2024.

Ar gael fan yma: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-wasanaeth-cymrun-gweithio-papur-crynodeb-3

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Sean Homer

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau....2

Rhestr o ffigurau....3

Geirfa....4

1. Cyflwyniad....4

2. Cyd-destun....7

3. Methodoleg....13

4. Canfyddiadau: Trosolwg o'r Cymorth sy’n cael ei Gynnig....18

5. Casgliadau....41

6. Argymhellion....46

7. Cyfeiriadau....49

Atodiad Un: Offer Ymchwil....51

Atodiad Dau: Hysbysiadau Preifatrwydd....59

Atodiad Tri: Cyd-destun Ychwanegol....74

Atodiad Pedwar: Newidynnau a ddadansoddwyd....83

**Rhestr o dablau**

Tabl 2.1: Nifer yr Wcreiniaid sy'n cyrraedd Cymru bob mis drwy’r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin ........ 8

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 4.1: Cyfradd ymgysylltiad ffoaduriaid a mudwyr â gwasanaeth Cymru’n Gweithio .... 19
Ffigur 4.2: Gwlad wreiddiol ffoaduriaid a mudwyr sy'n ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ........................................................................................................ 21
Ffigur 4.3: Cyfran y cwsmeriaid a oedd yn ymwneud â gwasanaeth Cymru’n Gweithio a oedd yn ffoaduriaid ac yn fudwyr, fesul awdurdod lleol ........................................... 22
Ffigur 4.4: Grwpiau oedran cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr sy’n ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ......................................................................... 23
Ffigur 4.5: Sefydliad atgyfeirio cyntaf ar gyfer cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr sy'n ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio ............................................................ 26

**Geirfa**

| **Acronym / Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| CAW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| CV | Curriculum Vitae |
| ESOL | Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| PACE | Partnership Action for Continuing Employment (rhaglen gan Lywodraeth yr Alban) |
| TSC+ | Twf Swyddi Cymru + |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cymru'n Gweithio, sy'n cael ei gyflawni gan Gyrfa Cymru, yn wasanaeth sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac a luniwyd i ddarparu cymorth cyflogadwyedd symlach ac effeithlon sy'n ymateb i anghenion unigolyn. Wedi'i gyflwyno yn 2019, mae'r gwasanaeth yn darparu pwynt mynediad ar gyfer cymorth cyflogadwyedd. Mae'n galluogi unigolion i siarad â chynghorwyr gyrfaoedd proffesiynol am gyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth gael a chynnal gwaith, addysg, hyfforddiant neu ddatblygu eu gyrfa.

1.2 Arweiniodd yr argyfwng yn Wcráin ym mis Chwefror 2022 at gynnydd yn nifer y mudwyr gorfodol o Wcráin a ddaeth i mewn i Gymru. Mewn ymateb i'r galw cynyddol, datblygodd Cymru'n Gweithio gynnig cymorth i ffoaduriaid a mudwyr i sicrhau bod mudwyr gorfodol o Wcráin a ffoaduriaid a mudwyr eraill yn cael cyngor gyrfaoedd cywir o ansawdd uchel lle bo'n briodol. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod y cynnig hwn yn ychwanegol at gynnig cyffredinol craidd Cymru'n Gweithio sydd ar gael i breswylwyr 16 oed[1] neu hŷn ledled Cymru.

1.3 Arweiniodd y gofyniad i aros gartref oherwydd cyfyngiadau symud COVID-19 dan orchymyn y llywodraeth yn 2020 a 2021 at fwy o alw am wasanaethau rhithwir ac arweiniodd at ddatblygu darpariaeth cyfarfodydd rhithwir i gwsmeriaid. Ers i gyfyngiadau aros gartref a/neu aros yn lleol COVID-19 gael eu codi yn 2021, mae cymorth Cymru'n Gweithio wedi parhau i fod ar gael wyneb yn wyneb ac o bell.

**Trosolwg o gwmpas a pharamedrau'r gwerthusiad**

1.4 Yn 2019, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Wavehill i edrych ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith Cymru'n Gweithio. Mae'r papur crynodeb hwn yn un o dri a gynhyrchwyd i ledaenu canfyddiadau'r gwerthusiad ac mae'n nodi canfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i ffoaduriaid a mudwyr.

1.5 Mae'r cwestiynau ymchwil allweddol sy'n llywio'r cam olaf hwn o'r gwerthusiad fel a ganlyn:

[1] Noder y gallai hyn hefyd gynnwys rhai pobl ifanc 15 oed sy'n troi'n 16 yn yr un flwyddyn academaidd.

- A yw manteision y 'dull un tîm'[2] yn cael eu gwireddu?
- A yw'r gwasanaeth yn hygyrch, yn enwedig i gwsmeriaid mewn ardaloedd mwy gwledig? Mae'r term 'hygyrch' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at fynediad daearyddol.
- Pa fodelau sy'n gweithio'n dda (cydleoli gwasanaethau gyda phartneriaid, gwasanaethau galw heibio cymunedol, ac ati)?
- Beth all y gwasanaeth ei wneud i fod yn fwy cynhwysol? Bydd hyn yn ystyried ble mae bylchau cydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau, yn seiliedig ar nodweddion demograffig neu ddaearyddiaeth, a chaiff ei fframio o amgylch grwpiau sy'n wynebu'r bwlch mwyaf.
- Wrth gefnogi pobl ifanc i gyflawni eu teithiau gydol oes unigol eu hunain, a yw Cymru'n Gweithio yn cyrraedd y rhai a fyddai'n elwa o ymwneud â Chymru'n Gweithio? Os na, pa newidiadau y mae angen i'r gwasanaeth eu hystyried er mwyn cynyddu cyrhaeddiad? Sut mae cwsmeriaid yn dod i mewn i'r gwasanaeth a pha weithgareddau allgymorth/ymgysylltu sydd ar waith?
- Beth mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig ar draws meysydd a sut mae'n rhyngweithio â sefydliadau partner, gwasanaethau, y galw, ac amodau'r farchnad lafur?

**Strwythur yr adroddiad**

1.6 Nod yr adroddiad hwn yw asesu sut mae'r model cyflawni a fabwysiadwyd gan Gymru'n Gweithio yn cynorthwyo ffoaduriaid a mudwyr wrth iddynt adsefydlu yng Nghymru, gan ystyried lle mae'n gweithio'n dda, lle mae bylchau'n amlwg yn y gwasanaeth, ac, wrth edrych ymlaen, potensial y gwasanaeth i'r dyfodol. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o dan y penawdau canlynol:

[2] Mae'r dull 'un tîm' yn golygu, waeth beth fo anghenion unigolyn o ran cyngor gyrfaoedd neu gymorth cyflogadwyedd, y byddant yn gallu cael mynediad at wasanaeth Cymru'n Gweithio a chael eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol.

- Cyd-destun – mae'r adran hon yn manylu ar sut y sefydlwyd cynnig cymorth ffoaduriaid a mudwyr Cymru'n Gweithio a sut mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd â pholisi cyflogadwyedd ffoaduriaid a mudwyr presennol a rhaglenni cenedlaethol.
- Methodoleg - mae'r adran hon yn rhoi manylion am y dulliau a ddefnyddiwyd yng ngham olaf y gwaith maes ac yn ystyried y cyfyngiadau methodolegol a wynebwyd.
- Trosolwg o'r Cynnig Cymorth – mae'r adran hon yn archwilio canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o fodel cyflawni presennol Cymru'n Gweithio a'u canfyddiadau o'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu ar gyfer cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr.
- Casgliadau ac argymhellion – mae'r adran hon yn darparu cyfres grynodol o ganfyddiadau ac argymhellion yn seiliedig ar waith dadansoddi drwy gydol yr adroddiad.

## 2. Cyd-destun

### Trosolwg

2.1 Mae’r adran ganlynol yn rhoi manylion am fudo i Gymru a sut y sefydlwyd cynnig cymorth Cymru’n Gweithio i ffoaduriaid a mudwyr. Mae'r adran hon hefyd yn archwilio sut mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cyd-fynd â pholisïau a rhaglenni presennol.

2.2 Yn gyffredinol, credir bod y rhan fwyaf o geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru wedi’u lleoli yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam[3]. Mae'n bwysig gwahaniaethu'n ofalus rhwng profiadau ffoaduriaid a mudwyr; caiff hyn ei archwilio’n fanylach yn Adran 3. Tra bod rhai unigolion yn ceisio lloches a noddfa rhag trais, erledigaeth neu amddifadedd difrifol, mae eraill yn mudo am resymau economaidd neu'n gwbl wirfoddol. O ganlyniad, mae’r gymuned o ffoaduriaid a mudwyr wedi’u nodweddu gan lefelau amrywiol o angen am gymorth.

2.3 O 14 Tachwedd 2023, mae cyfanswm o 7,238 o Wcreiniaid wedi cyrraedd Cymru fel rhan o’r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin (Cartrefi i Wcráin)[4]. Noder, ym mis Tachwedd 2023, bod y Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin yn cyfrif am tua dwy ran o dair o'r holl geisiadau fisa gan Wcreiniaid yn y DU ers sefydlu'r cynlluniau ar ddechrau'r rhyfel yn Wcráin (Mawrth 2022)[5]. Mae Tabl 2.1 yn dangos bod nifer yr Wcreiniaid a gyrhaeddodd Cymru drwy’r cynllun wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2022, gydag ychydig iawn o Wcreiniaid yn cyrraedd drwy’r llwybr hwn erbyn diwedd 2022.

---

[3] Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.
[4] Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2023) Ukraine Sponsorship Scheme: Visa data by country, upper and lower tier local authority.
[5] Y Swyddfa Gartref a Fisâu a Mewnfudo y DU (2023) Ukraine Family Scheme, Ukraine Sponsorship Scheme (Homes for Ukraine) and Ukraine Extension Scheme visa data. Noder y daw’r data hwn o systemau gweithredol byw yn wythnosol ac nid oes cyfansymiau hanesyddol ar gael.

**Tabl 2.1: Nifer yr Wcreiniaid sy'n cyrraedd Cymru bob mis drwy’r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin**

| Dyddiad | N (cronnus) | N (wedi cyrraedd ers y dyddiad blaenorol) |
|---|---|---|
| Ebrill 2022 | 313 | |
| 10 Mai 2022 | 1,126 | 813 |
| 07 Mehefin 2022 | 2,199 | 1,073 |
| 05 Gorffennaf 2022 | 3,694 | 1,495 |
| 02 Awst 2022 | 4,713 | 1,019 |
| 06 Medi 2022 | 5,431 | 718 |
| 04 Hydref 2022 | 5,849 | 418 |
| 01 Tachwedd 2022 | 6,053 | 204 |
| 06 Rhagfyr 2022 | 6,182 | 129 |
| 03 Ionawr 2023 | 6,289 | 107 |
| 07 Chwefror 2023 | 6,437 | 148 |
| 07 Mawrth 2023 | 6,528 | 91 |
| 04 Ebrill 2023 | 6,616 | 88 |
| 02 Mai 2023 | 6,704 | 88 |
| 06 Mehefin 2023 | 6,783 | 79 |
| 04 Gorffennaf 2023 | 6,852 | 69 |
| 01 Awst 2023 | 6,928 | 76 |
| 05 Medi 2023 | 7,024 | 96 |
| 03 Hydref 2023 | 7,118 | 94 |
| 07 Tachwedd 2023 | 7,212 | 94 |
| 14 Tachwedd 2023 | 7,238 | 26 |

Ffynhonnell: Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2023). Gwnaeth cyfanswm o 7,238 o ffoaduriaid o Wcráin gyrraedd Cymru rhwng lansio’r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin ar 18 Mawrth 2022 a 14 Tachwedd 2023. Adroddwyd ar ddata yn wythnosol ac mae’r data uchod wedi’i gymryd o'r datganiad cyntaf ym mhob mis.

2.4 Mewn ymateb i’r galw cynyddol i gynorthwyo mudwyr gorfodol o Wcráin, datblygodd Cymru’n Gweithio gynnig cymorth i ffoaduriaid a mudwyr i sicrhau bod pob ffoadur a mudwr sy’n dod i mewn i Gymru, lle bo’n briodol, yn cael cyngor gyrfaoedd cywir o ansawdd uchel. Fel yr amlygwyd uchod, mae’n bwysig nodi bod y cynnig hwn yn ychwanegol at gynnig cyffredinol craidd Cymru’n Gweithio sydd ar gael i drigolion 16 oed neu hŷn ledled Cymru.

2.5 Trwy Cymru’n Gweithio, mae ffoaduriaid a mudwyr yn gallu cael mynediad at y cynnig cymorth cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cymorth cyflogadwyedd drwy hyfforddwr cyflogadwyedd a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gan gynghorydd

gyrfaoedd cymwys Lefel 6. Gwnaeth cynnig cymorth Cymru'n Gweithio i ffoaduriaid a mudwyr hefyd ddatblygu dros amser, gan sicrhau bod Cymru'n Gweithio yn gallu ymateb yn effeithiol i ystod eang o anghenion ffoaduriaid a mudwyr. Roedd hyn yn cynnwys:

- Sefydlu hyrwyddwyr ffoaduriaid a mudwyr gorfodol / ceiswyr lloches ym mhob tîm cyflawni rhanbarthol. Mae'r hyrwyddwyr yn rhoi cymorth i gydweithwyr y gallai fod angen cymorth neu gyngor arnynt wrth helpu amrywiaeth o grwpiau cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr. Mae gwybodaeth ac arbenigedd hyrwyddwyr arbenigol yn cynnwys hawliau cyfreithiol i waith a thai, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.
- Addasu adnoddau mewnol ar gyfer Cymru'n Gweithio i gynorthwyo cwsmeriaid a'u cyfeirio at Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).
- Hyfforddiant staff Cymru'n Gweithio i sicrhau bod staff yn hyderus ac yn gallu darparu cymorth i gwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr o gefndiroedd amrywiol ac sydd â lefelau amrywiol o Saesneg.
- Darparu 'Llinell Iaith'[6] i sicrhau y gallai ffoaduriaid a mudwyr sydd â Saesneg cyfyngedig ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio.

2.6 Wrth gyrraedd Cymru, mae'n bwysig nodi y gallai fod ar ffoaduriaid a mudwyr angen mynediad at ystod o wasanaethau cyn ymgysylltu â chyngor gyrfaoedd a chymorth cyflogadwyedd. O ganlyniad, mae Cymru'n Gweithio wedi ceisio ymgysylltu ag ystod eang o wasanaethau eraill i sicrhau bod y cynnig ar gael i ffoaduriaid a mudwyr ar yr adeg briodol. Er enghraifft, ar ôl cyrraedd Cymru, cafodd mudwyr gorfodol o Wcráin eu cartrefu mewn Canolfannau Croeso a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Pan oedd yn briodol, roedd staff Cymru'n Gweithio yn gweithio gyda staff y Canolfannau Croeso i sicrhau bod cymorth Cymru'n Gweithio ar gael yn ôl yr angen.

[6] Mae Llinell Iaith yn wasanaeth sy'n darparu gwasanaeth dehongli iaith, cyfieithu a gwasanaethau eraill ar alw ac ar y safle, gan gynnwys cyfieithu dogfennau ar gyfer siaradwyr Saesneg cyfyngedig a phoblogaethau Byddar neu Drwm eu Clyw.

**Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â rhaglenni a pholisïau presennol**

2.7 Mae Cenedl Noddfa 2019 – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches[7] yn ceisio symud Cymru yn nes at y nod hirdymor o fod yn Genedl Noddfa wirioneddol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar integreiddio ffoaduriaid yn gyflym, yn hybu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n sicrhau bod unigolion o bob cefndir yn cael eu cynorthwyo, ac yn annog sefydliadau preifat a chyhoeddus i gydweithio â Llywodraeth Cymru. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022[8] Llywodraeth Cymru sy'n amlygu bod camau diweddar y llywodraeth i ddarparu tai i ffoaduriaid o Affganistan a mudwyr gorfodol o Wcráin yn dangos bod y wlad yn genedl noddfa ac y dylai fod.

2.8 Mae Cynllun Cenedl Noddfa a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cyd-fynd yn agos â nifer o'r nodau llesiant sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[9]. Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth ar gyfer Cymru 'sy'n gyfrifol yn fyd-eang', yn 'fwy cyfartal' ac sydd â 'chymunedau cydlynus'. Er mwyn cyflawni'r nod llesiant hyn, mae pum dull o weithio yn cael eu hyrwyddo yn y Ddeddf ((Meddwl) Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, a Chynnwys). Roedd cynnwys ffoaduriaid, ceiswyr lloches a sefydliadau cymorth yn hanfodol i lunio'r Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.

2.9 Mae Cymru'n Gweithio yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â rhaglenni a gwasanaethau eraill, ac mae llawer ohonynt yn cyd-fynd â'r cymorth a gynigir. Un rhaglen allweddol i wireddu uchelgeisiau'r Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yw AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid[10]. Ei nod yw darparu rhaglen gymorth integreiddio gyfannol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y prif glystyrau lle gosodwyd ceiswyr lloches: Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam. Trwy asesiadau o anghenion cwsmeriaid a hyfforddiant sgiliau mewnol, mae'r rhaglen yn darparu darpariaeth ESOL sy'n gyflym ac yn briodol o ran gallu. Mae'n ceisio cynyddu cyfleoedd yn y gweithle drwy Swyddogion Ymgysylltu â Chyflogwyr

---

[7] Llywodraeth Cymru (2019) Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.
[8] Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
[9] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
[10] Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid - Cynyddu Cyfleoedd Cyflogadwyedd i Ffoaduriaid yng Nghymru.

Rhanbarthol. Yn ôl gwaith ymchwil ar y rhaglen hon, mae cymunedau ffoaduriaid a mudwyr yn fwyaf nodedig yn wynebu rhwystrau yn ymwneud â sgiliau iaith Saesneg, cymhwysedd diwylliannol mewn gweithleoedd yng Nghymru a diffyg cydnabyddiaeth gan gyflogwyr ynghylch cymwysterau, sgiliau a/neu brofiad.[11] Nodwyd bod swyddi lefel mynediad yn darparu carreg gamu dda i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, ond mae angen i gymorth i mewn i waith gael ei ategu gan gymorth mewn gwaith i helpu pobl i symud ymlaen allan o swyddi lefel mynediad ac i waith mwy medrus.

2.10 Mae gwasanaethau mwy sefydledig, fel y Ganolfan Byd Gwaith, yn elfennau allweddol pellach o'r rhwydwaith cymorth cyflogadwyedd i ffoaduriaid a mudwyr. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cynnig ystod o wasanaethau perthnasol, fel cyngor chwilio am waith, gofal plant a chymorth ariannol i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth. Mae ymchwil blaenorol wedi nodi mai dim ond amser cyfyngedig sydd gan staff y Ganolfan Byd Gwaith, mewn rhai achosion, i'w dreulio gyda chwsmeriaid ac nad oes ganddynt fel arfer hyfforddiant penodol i weithio gyda ffoaduriaid a mudwyr[12].

2.11 Gall gwasanaethau fel Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+) ddarparu mwy o gymorth wedi'i dargedu[13]. Mae CaW+ yn cynnig cyngor cyflogaeth arbenigol a mentora dwys wedi'i deilwra i bobl sy'n perthyn i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn y farchnad lafur, gan gynnwys mudwyr, pobl ifanc, pobl hŷn ac anabl a phobl â chyfrifoldebau gofal. Caiff mentor ei ddynodi i gyfranogwyr sy'n cwrdd â nhw yn eu cymuned leol, yn nodi anghenion unigol ac yn eu cefnogi yn ystod unrhyw gamau nesaf. Nododd gwerthusiad diweddar ar gyfer CaW+ fod y rhaglen yn cynnig gweithgareddau, yn arbennig, i gynorthwyo meddygon sy'n ffoaduriaid i mewn i rolau'r GIG[14]. Nododd y gwerthusiad hwn hefyd fod sgiliau iaith Saesneg yn rhwystr cyffredin i gymunedau o ffoaduriaid a mudwyr.

[11] Llywodraeth Cymru (2020) Ailgychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid, Cyfleoedd Ymgysylltu â Chyflogwyr (crynodeb).
[12] Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.
[13] Cymru'n Gweithio (dim dyddiad) Cymunedau am Waith a Mwy.
[14] Holton, D; Burrowes, E; Bryer, N; (2023) Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1.

2.12 Enghraifft o wasanaethau cymorth arbenigol yng Nghymru yw grŵp Meddygon a Deintyddion sy'n Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid yng Nghymru (WARD)[15]. Nod WARD yw helpu meddygon a deintyddion i oresgyn rhwystrau i ailddechrau eu gyrfaoedd ym maes gofal iechyd. Mae ffoaduriaid yn cael cymorth ar gyfer hyfforddiant iaith galwedigaethol ac ail-ddilysu eu cymwysterau.

2.13 Mae REACH+[16] yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu pwynt cyswllt i unrhyw un sydd eisiau dysgu ESOL. Mae canolfannau REACH+ yn asesu lefelau gallu ac yn hwyluso mynediad cyflym i gyrsiau a chymorth addas. Dim ond yng Nghaerdydd y bu'n rhedeg i ddechrau, ac fe'i hestynnwyd i Abertawe, Casnewydd a Wrecsam fel rhan o brosiect AilGychwyn.

2.14 Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan fawr wrth ddarparu cymorth cyflogaeth i ffoaduriaid a mudwyr. Mae rhai gwasanaethau a phrosiectau yn cael eu hariannu gan y llywodraeth, tra bod grwpiau ffydd a grwpiau llawr gwlad eraill yn darparu cymorth yn annibynnol. Un enghraifft yw Cyngor Ffoaduriaid Cymru[17], sy'n gweithio ar y cyd â rhaglen Cymru'n Gweithio, ac yn cynnig gweithdai cyflogadwyedd, cymorth ymgeisio a chyllid ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol. Yn gyffredinol, mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau gwirfoddol yn fach o ran maint gyda chyrhaeddiad cyfyngedig yn canolbwyntio'n bennaf ar Gaerdydd, Casnewydd ac Abertawe[18].

---

[15] GIG Cymru (2020) Cymorth i feddygon sy'n ffoaduriaid drwy WARD.
[16] Reach+ (2023) What is REACH?.
[17] Cyngor Ffoaduriaid Cymru (dim dyddiad) What we do.
[18] Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.

## 3. Methodoleg

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi manylion y dull methodolegol a ddefnyddiwyd yng ngham olaf gwerthusiad Cymru'n Gweithio sydd wedi llywio'r adroddiad hwn ar gymorth i ffoaduriaid a mudwyr. Ymhellach, mae'r adran hon yn archwilio'r cyfyngiadau methodolegol ychwanegol a wynebwyd a'r ystyriaethau a gymerwyd.

**Dulliau a gweithgareddau ymchwil**

3.2 Mae gwaith maes ac ymchwil ddesg a wnaed i lywio'r papur crynodeb hwn yn cynnwys:

- Adolygiad desg thematig o lenyddiaeth ynghylch cyd-destun ffoaduriaid a mudwyr sy'n cyrraedd Cymru a'r cymorth a gynigir. O fewn yr ymchwil ddesg hon, cynhaliodd ymchwilwyr chwiliadau helaeth ar draws ffynonellau amrywiol gan gynnwys papurau polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru, adroddiadau gwerthuso eraill, astudiaethau, a llenyddiaeth gyhoeddedig arall. Ar ôl curadu deunyddiau perthnasol, bu'r ymchwilwyr yn dadansoddi'n feirniadol ac yn crynhoi canfyddiadau allweddol yn ymwneud â Chymru'n Gweithio. Roedd y gwaith o gyfosod y wybodaeth hon yn cynnwys nodi patrymau, anghysondebau a bylchau yn y llenyddiaeth a oedd yn bodoli eisoes. Ymgymerwyd â'r broses hon i roi'r gwerthusiad yn ei gyd-destun er mwyn sicrhau y gall canfyddiadau'r gwerthusiad gyfrannu'n ystyrlon at y corff hwn o waith. Ceir rhestr lawn o'r llenyddiaeth a adolygwyd yn adran 7.
- Dadansoddiad meintiol manwl o wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru. Mae'r data hyn yn cynnwys pob un o'r 95,164 o gwsmeriaid unigol Cymru'n Gweithio rhwng mis Chwefror 2019 a mis Mawrth 2023 yn ogystal â 120,730 o achosion cwsmeriaid a nodwyd o fewn yr un cyfnod amser. Mewn llawer o achosion, gwnaeth cwsmeriaid gael cymorth gan Cymru'n Gweithio sawl gwaith. Mae'r derminoleg ganlynol wedi'i defnyddio wrth ddisgrifio'r ffordd yr oedd cwsmeriaid yn ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio:

- Lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at **ymgysylltiad cwsmeriaid**, mae hyn yn cyfeirio at y cwsmeriaid unigryw sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- Lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at **achosion cwsmeriaid**, dyma gyfanswm nifer yr achosion yr oedd angen cymorth ar gwsmeriaid. Mae staff Cymru'n Gweithio yn aml yn gweithio gyda chwsmer ar sawl achlysur; caiff pob achlysur ei gofnodi fel 'achos'. Gall achos fod yn un diwrnod (e.e. lle mae angen un rhyngweithiad yn unig) neu gall ymestyn i sawl mis (e.e. cymorth ReAct+ i gwsmer a ddiswyddwyd sy'n edrych am gyfeiriad gyrfa newydd). Bydd cyfanswm achosion cwsmeriaid (120,730) yn cynnwys cwsmeriaid a wnaeth ddychwelyd a chael cymorth gan y gwasanaeth sawl gwaith. Mae'n bwysig nodi y gall amgylchiadau cwsmeriaid newid rhwng achosion gwahanol, er enghraifft efallai y bydd gan gwsmer statws marchnad lafur gwahanol neu efallai y bydd yn byw mewn lleoliad gwahanol. Lle mae'r newidynnau hyn yn digwydd, mae'r gwaith dadansoddi wedi'i gynnal fesul achos cymorth yn hytrach nag unigolion er mwyn deall yn llawn y cymorth y mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu.
- Mae **rhyngweithiadau cwsmeriaid** yn cyfeirio at y dulliau a ddefnyddiwyd gan gwsmeriaid i ymgysylltu â'r gwasanaeth e.e. drwy alwad ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae rhestr lawn o newidynnau'r mathau o rhyngweithiadau iw gweld yn Atodiad Pedwar

Dadansoddwyd yr holl ddata meintiol gan ddefnyddio Excel a/neu StatsIQ ar blatfform Qualtrics.

- Cyfweliadau lled-strwythuredig manwl â 28 o staff rheoli a chyflawni i fyfyrio ar fodel presennol Cymru'n Gweithio, ei effeithiolrwydd, ei gryfderau a'i heriau, ac ystyriaethau yn y dyfodol i sicrhau bod y model yn cyflawni ei weledigaeth i fod yn bwynt mynediad i Gymru gyfan. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn rhwng Gorffennaf a Medi 2023.
- Cyfweliadau lled-strwythuredig manwl â 14 o randdeiliaid mewnol ac allanol i archwilio effeithiolrwydd model presennol Cymru'n Gweithio, y cymorth a

gynigir i ffoaduriaid a mudwyr, a rôl Cymru’n Gweithio yn y dyfodol. Staff Gyrfa Cymru oedd y rhanddeiliaid mewnol, ac unigolion a gyflogwyd y tu allan i Gyrfa Cymru ond a oedd yn gweithio gyda gwasanaeth Cymru’n Gweithio oedd y rhanddeiliaid allanol. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn rhwng Awst a Hydref 2023. Dadansoddwyd yr holl ddata ansoddol yn thematig gan ddefnyddio methodolegau theori sylfaenol.[19]

- Grwpiau ffocws ar-lein wedi’u harwain gan gymheiriaid-ymchwilwyr gyda ffoaduriaid a mudwyr a gafodd gymorth Cymru’n Gweithio[20]. Daeth cyfanswm o naw cwsmer i’r rhain, a gwnaeth pum cwsmer arall ddarparu adborth ysgrifenedig trwy arolwg Qualtrics ar-lein lle nad oeddent yn gallu dod i’r sesiynau. Nodwyd y cymheiriaid-ymchwilwyr[21] gan dîm rheoli prosiect Cymru'n Gweithio. Wrth ystyried sut y gellid recriwtio cymheiriaid-ymchwilwyr, dywedodd tîm rheoli prosiect Cymru’n Gweithio, gan fod mwyafrif y mudwyr sydd wedi defnyddio’r gwasanaeth yn dod o Wcráin, ei bod yn ymddangos yn fwy priodol defnyddio mudwyr gorfodol o Wcráin i fod yn gymheiriaid-ymchwilwyr.[22] Cafodd y cymheiriaid-ymchwilwyr sgyrsiau cychwynnol gyda thîm ymchwil Wavehill i sicrhau eu bod yn deall cylch gwaith a diben y rôl a sicrhau bod tîm Wavehill yn ymwybodol o’u hanghenion cymorth a hyfforddiant i gynnal y grwpiau ffocws. Gofynnwyd i’r cymheiriaid-ymchwilwyr adolygu canllawiau trafod yr ymchwil i sicrhau bod y cwestiynau'n briodol ac yna cyfieithu'r canllawiau trafod. Anfonwyd ffurflenni cydsynio gan gynnwys gwybodaeth am y dasg ymchwil yn y Saesneg ac Wcreineg i gwsmeriaid Cymru'n Gweithio trwy gysylltiadau Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Gyrfa Cymru. Yna rhoddodd cwsmeriaid eu cydsyniad i gymryd rhan yn y grŵp ynghyd a'u manylion cyswllt. Gyda chymorth tîm Wavehill, gwnaeth y cymheiriaid-ymchwilwyr arwain y grwpiau ffocws a

[19] [19] Bryman, A., Quantity and Quality in Social Research, 1998 a Charmaz, K., Grounded Theory: Objectivist and Constructivist Methods, in N.K. Denzin a Y.S. Lincoln (gol.) Handbook of Qualitative Research 2nd Edition, 2000.

[20] Noder mai mudwyr gorfodol o Wcráin oedd pob un ond un o'r cwsmeriaid a ymgysylltodd â'r agwedd hon ar y gwaith maes.

[21] Mae cymheiriaid-ymchwilwyr yn bobl sy'n cynorthwyo gwaith ymchwil yn eu cymunedau eu hunain ac yn gallu pwyso ar eu profiadau personol eu hunain o fewn y broses ymchwil.

[22] Noder mudwyr gorfodol o Wcráin a oedd wedi defnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio o'r blaen oedd y cymheiriaid-ymchwilwyr.

chyfieithu lle bo angen. I’w digolledi, derbyniodd y cyfranogwyr a’r cymheiriaid-ymchwilwyr £10 o dalebau’r stryd fawr.[23] Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r data ansoddol a gasglwyd i nodi themâu a thueddiadau allweddol, a gafodd ei gyfuno wedyn â chyfweliadau staff a gwybodaeth adolygu polisi ehangach.

**Cyfyngiadau ac ystyriaethau**

3.3 Mae'n bwysig cydnabod bod y termau ffoadur, ceisiwr lloches a mudwr i gyd yn cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn a bod dealltwriaeth o’r termau hyn a'u diffiniadau yn amrywio, er nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol. Mae ceisiwr lloches yn unigolyn sydd wedi gadael ei wlad ac yn ceisio amddiffyniad mewn gwlad arall ond nad yw eto wedi cael statws cyfreithiol fel ffoadur.[24] Mae ffoadur yn unigolyn sydd wedi gadael ei wlad i geisio lloches mewn gwlad arall ac sydd wedi cael statws cyfreithiol fel ffoadur. Gall y caniatâd a roddir i ffoadur weithio amrywio ond yn nodweddiadol gallant gael eu cyflogi mewn galwedigaeth sydd wedi'i nodi mewn 'rhestr o alwedigaethau lle ceir prinder'.[25] Mae mudwr yn aml yn cyfeirio at unigolyn nad yw'n geisiwr lloches nac yn ffoadur, sydd wedi gadael ei wlad gartref am amrywiaeth o resymau gan gynnwys gwaith ac addysg neu am ystod eang o resymau diogelwch gan gynnwys tlodi, trychinebau naturiol neu aflonyddwch sifil. Mae'n bwysig nodi’r ffaith bod Wcreiniaid a symudodd i Gymru yn 2022 oherwydd gwrthdaro wedi'u dosbarthu'n swyddogol fel mudwyr gorfodol oherwydd ystyriaethau diogelwch yn eu gwlad gartref.

3.4 Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'ffoaduriaid a mudwyr' i gwmpasu ystod eang o unigolion a sefyllfaoedd lle mae pobl wedi dod i Gymru. Nid yw gwybodaeth fonitro ar lefel rhaglen yn nodi cenedligrwydd pob cwsmer. O ganlyniad, dim ond y cwsmeriaid hynny y mae eu statws fel ffoadur, ceisiwr lloches, neu fudwr wedi'i fanylu'n benodol ar eu cyfer, neu y gellir dod i gasgliad yn eu cylch yn rhesymol,

[23] Noder bod taleb o £10 wedi'i darparu am bob awr y bu’r unigolyn yn ymwneud â'r gwaith maes. O ganlyniad, derbyniodd rhai unigolion nifer o dalebau.
[24] Amnest Rhyngwladol (2020) [Refugees, Asylum Seekers and Migrants](#).
[25] Llywodraeth y DU (2023) [Permission to work and volunteering for asylum seekers](#).

yw’r ffoaduriaid a'r mudwyr a nodwyd sydd wedi’u cynnwys.[26] Gwnaeth Cymru’n Gweithio wella’r broses o gofnodi gwybodaeth fonitro o ddiwedd mis Hydref 2022 ymlaen, a oedd yn cynnwys creu maes newydd i gofnodi ‘gwlad wreiddiol’ ar gyfer cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr. Lle bo’n ymarferol, aed ati wedyn i gofnodi ‘gwlad wreiddiol’ y cwsmeriaid a oedd wedi ymgysylltu â’r gwasanaeth ers mis Ebrill 2022. Yn seiliedig ar wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen, mae hefyd yn anodd cyfrifo faint o ffoaduriaid a mudwyr sydd wedi eu cynorthwyo gan wasanaeth Cymru’n Gweithio gan fod rhai heb eu dosbarthu yn y naill gategori na’r llall ac yn hytrach wedi’u hatgyfeirio o wasanaeth cymorth penodol i ffoaduriaid, mudwyr neu geiswyr lloches. Mae cyfanswm y ffoaduriaid a’r mudwyr a ddadansoddwyd yn cynnwys y rhai a ddywedodd yn wirfoddol am eu statws fel ffoadur neu fudwr yn unig, a all hefyd gyfrif am y ffaith nad yw’r atgyfeiriadau hyn wedi’u categoreiddio’n ffurfiol fel ‘ffoadur’, ‘mudwr’ neu ‘fudwr gorfodol arall’. Felly, mae’n debygol bod nifer gwirioneddol y ffoaduriaid a’r mudwyr a gafodd gymorth gan Cymru’n Gweithio yn fwy na’r cyfanswm a roddir.

3.5 Mae'n bwysig nodi, mewn grwpiau ffocws, bod cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid mudwyr wedi mynegi dryswch ynghylch y gwahaniaeth rhwng hyfforddwyr y Ganolfan Byd Gwaith, cymorth Gyrfa Cymru a chymorth Cymru'n Gweithio. Roedd hyn yn debygol o fod am eu bod wedi llywio drwy wasanaethau lluosog wrth ddod i mewn i'r wlad, lle mae llwybrau cymorth lluosog yn cael eu cynnig. Lle y bo'n bosibl, cadarnhaodd y gwerthuswyr gyda’r cwsmeriaid fod yr adborth a ddarparwyd ganddynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gwasanaeth Cymru'n Gweithio.

3.6 Roedd y garfan o gwsmeriaid a gymerodd ran mewn grwpiau ffocws yn fach, ac felly ni ellir ystyried eu bod yn gynrychioliadol o holl gwsmeriaid y garfan hon. At hynny, fel yr amlygwyd yn gynharach yn yr adran hon, roedd y rhan fwyaf o’r ymgysylltiad hwn yn canolbwyntio ar fudwyr gorfodol o Wcráin. Noder na all y profiadau sy’n cael eu cyfleu gan fudwyr o Wcráin gael eu cyffredinoli fel profiadau ceiswyr lloches, ffoaduriaid neu fudwyr o genhedloedd eraill.

[26] Noder bod honiadau rhesymol yn cynnwys achosion lle cafodd cwsmeriaid nad oeddent wedi’u dosbarthu fel ffoadur na cheisiwr lloches ond a gyfeiriwyd at Cymru’n Gweithio gan wasanaeth sydd ond yn cynorthwyo ffoaduriaid a/neu fudwyr, er enghraifft, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Chanolfannau Croeso i bobl o Wcráin.

# 4. Canfyddiadau: Trosolwg o'r Cymorth sy'n cael ei Gynnig

4.1 Mae'r adran hon yn asesu cyrhaeddiad Cymru'n Gweithio a'r prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwasanaeth. Caiff ei hysbysu gan farn staff, rhanddeiliaid a mudwyr a ffoaduriaid o blith cwsmeriaid Cymru'n Gweithio yn ogystal â dadansoddiad o wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen.

4.2 Nod Cymru'n Gweithio yw darparu pwynt mynediad Cymru gyfan ar gyfer cymorth cyflogadwyedd diduedd a phersonol, sydd ar gael i bob unigolyn 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru sydd â hawl gyfreithiol i weithio. Yn benodol i ffoaduriaid a mudwyr, gall y rhaglen ddarparu mynediad at wasanaeth dehongli iaith, trosglwyddo cymwysterau, cynghorwyr arbenigol a hyfforddiant sgiliau iaith Saesneg. Roedd Cenedl Noddfa: Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches 2019 yn cynnwys camau gweithredu i sicrhau bod rhaglenni gan gynnwys Cymru'n Gweithio yn hyrwyddo eu gwasanaethau'n uniongyrchol i ffoaduriaid[27]. At hynny, mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022 yn cyflwyno ymrwymiadau i sicrhau bod rhaglenni cyflogadwyedd yn cynnig amgylchedd diogel, cadarnhaol a chynhwysol i'r holl staff a chyfranogwyr.[28]

**Y galw am gymorth gan gwsmeriaid â statws ffoaduriaid neu fudwyr**

4.3 Rhwng Chwefror 2019 a Mawrth 2023, ymgysylltodd 1,250 o ffoaduriaid a mudwyr â rhaglen Cymru'n Gweithio, sef un y cant o gyfanswm carfan Cymru'n Gweithio.


4.4 Fel yr amlygwyd yn Adran 3, mae dadansoddiad o wybodaeth fonitro ar lefel rhaglen wedi cyfrifo cyfanswm tebygol y ffoaduriaid a'r mudwyr. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cwsmeriaid y nodwyd eu bod yn ffoaduriaid a mudwyr, a chwsmeriaid heb unrhyw ddosbarthiad ond a gyfeiriwyd trwy wasanaeth arbenigol sydd ond yn cefnogi ffoaduriaid a/neu fudwyr, er enghraifft, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Chanolfannau Croeso lleol i fudwyr o Wcráin. Mae'n bwysig nodi'n gywir nifer y ffoaduriaid a'r mudwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y cwsmeriaid yn cael eu categoreiddio'n gywir ac yn gyson.

---

[27] Llywodraeth Cymru (2019) Cenedl Noddfa: Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches.
[28] Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

4.5 Fel sy’n cael ei ddangos yn Ffigur 4.1, mae’r galw gan ffoaduriaid a mudwyr am gymorth Cymru’n Gweithio wedi cynyddu dros amser. Mae’n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod Cymru’n Gweithio wedi mireinio eu systemau cipio data ym mis Hydref 2022 i’w gwneud yn haws nodi ffoaduriaid a mudwyr sy’n cael cymorth. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol bod cyfran ychydig yn uwch o ffoaduriaid a mudwyr wedi ymgysylltu â’r gwasanaeth cyn 2022 na’r hyn a gipiwyd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd a nodwyd yn y galw yn cyd-fynd yn fras â thueddiadau mudo ehangach o ganlyniad i achosion o wrthdaro sy'n dod i'r amlwg ac sy'n parhau ar draws y byd, er enghraifft argyfyngau yn Affganistan, Syria ac Wcráin. Mae'r achosion hyn o wrthdaro wedi achosi cynnydd mewn mudo gorfodol ymhlith gweithwyr medrus sy'n chwilio am waith. Er mwyn cefnogi anghenion ffoaduriaid a mudwyr yn effeithiol, mae Cymru’n Gweithio wedi ceisio gweithio fwyfwy gyda phartneriaid arbenigol, er enghraifft Cyngor Ffoaduriaid Cymru, i sicrhau y gall Cymru’n Gweithio ymgysylltu’n effeithiol ag amrywiaeth o gymunedau.

**Ffigur 4.1: Cyfradd ymgysylltiad ffoaduriaid a mudwyr â gwasanaeth Cymru’n Gweithio**





Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru’n Gweithio Ffoaduriaid a mudwyr a nodwyd (n= 1,250 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid)

4.6 Mae Ffigur 4.2 yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o ffoaduriaid a mudwyr a ymgysylltodd â gwasanaeth Cymru'n Gweithio, lle mae data wedi'i gofnodi, yn dod o Wcráin (91.1 y cant; 1,044/1,146)[29]. Mae hyn yn dangos bod Cymru'n Gweithio wedi ymateb yn effeithiol i'r galw i gynorthwyo mudwyr gorfodol o Wcráin (14 y cant o'r holl fudwyr gorfodol o Wcráin a nodwyd sy'n byw yng Nghymru; 1,044/7,238 ar 14 Tachwedd 2023)[30]. Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith nad oedd 41 y cant (510/1,250) o'r cwsmeriaid a nodwyd fel ffoadur neu fudwr wedi rhannu eu gwlad wreiddiol yn benodol gan na ofynnwyd yn benodol am y wybodaeth hon cyn mis Hydref 2022. Fel yr amlygwyd uchod, gwnaeth Cymru'n Gweithio addasu ei systemau cipio data ym mis Hydref 2022, gan arwain at gasglu gwybodaeth ddaearyddol yn fwy rheolaidd. Mae Adran 9 (Cyflogadwyedd a Sgiliau) o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022) yn cynnwys yr ymrwymiad i adolygu a gwerthuso'r data a gasglwyd ar gyfranogwyr ethnig leiafrifol mewn rhaglenni cyflogadwyedd a dadansoddi cyfranogiad a chanlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau er mwyn nodi'n well pa gymorth sy'n gweithio ac lle mae angen gwelliannau i gynyddu cyfranogiad ac annog gwell canlyniadau i'r cyfranogwyr hyn[31]. Dylai Cymru'n Gweithio ystyried a ellid gwella'r broses o gasglu data ar fudo ymhellach er mwyn dal ymgysylltiad ffoaduriaid a mudwyr yn well, er enghraifft trwy gofnodi gwlad wreiddiol y cwsmer yn gyson o fewn systemau monitro. Er mwyn annog cwsmeriaid i ddarparu data o'r fath, dylai staff esbonio sut y bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi taith eu cwsmer.

[29] Mae hyn yn cynnwys 406 o gwsmeriaid nad oeddent wedi rhannu eu gwlad wreiddiol, ond y nodwyd eu bod o Wcráin ar sail iaith y cartref neu oherwydd iddynt gael eu hatgyfeirio gan sefydliad sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo ffoaduriaid o Wcráin.
[30] Cyrraedd fel rhan o'r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin (Cartrefi i Wcráin), Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2023)
[31] Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.


**Ffigur 4.2: Gwlad wreiddiol ffoaduriaid a mudwyr sy'n ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio**




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru’n Gweithio Ffoaduriaid a mudwyr sydd â gwlad wreiddiol wedi'i nodi (n= 1,146 o ymrwymiadau cwsmeriaid). Nid yw hyn yn cynnwys cwsmeriaid nad yw eu gwlad wreiddiol wedi'i chofnodi ar eu cyfer, ac eithrio 406 o gwsmeriaid a nodwyd eu bod o Wcráin yn seiliedig ar ddata arall sydd ar gael.

4.7 Ar lefel genedlaethol, Caerdydd gafodd y nifer uchaf o atgyfeiriadau ar gyfer ffoaduriaid a mudwyr (244/1,250; 19.5 y cant o’r holl atgyfeiriadau yn y garfan hon) sydd i’w ddisgwyl o ystyried dwysedd y boblogaeth. Fodd bynnag, wrth edrych ar gyfran y ffoaduriaid a mudwyr o bob awdurdod lleol fel canran o gyfanswm cwsmeriaid Cymru’n Gweithio o bob awdurdod lleol (fel sy’n cael ei ddangos yn Ffigur 4.3), Sir Fynwy (125/2,461; 5.1 y cant), Sir Ddinbych (64/1,963; 3.3 y cant) a Gwynedd (92/3,090; 3.0 y cant) oedd â'r cyfrannau uchaf. Fel a gaiff ei archwilio ymhellach ym mharagraff 4.21, awgrymodd rhanddeiliaid, er bod ffoaduriaid a mudwyr wedi'u lleoli'n nodweddiadol mewn canolfannau trefol yng Nghymru, mae mudwyr gorfodol o Wcráin wedi'u lleoli'n gyffredinol ar draws ystod ehangach o ddaearyddiaeth.

**Ffigur 4.3: Cyfran y cwsmeriaid a oedd yn ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio a oedd yn ffoaduriaid ac yn fudwyr, fesul awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n= 85,965 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys cwsmeriaid na chofnodwyd yr awdurdod lleol ar eu cyfer.

4.8 Mae Ffigur 4.4 yn dangos bod mwyafrif y ffoaduriaid a'r mudwyr a oedd yn defnyddio Cymru'n Gweithio rhwng 25 a 49 oed (72 y cant; 898/1,250).[32] Mae cyfran sylweddol uwch o garfan cwsmeriaid Cymru'n Gweithio sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr rhwng 25 a 49 oed nag ar draws gweddill y garfan o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio.[33] Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â thueddiadau mudo ehangach yng Nghymru, gyda bron i dair rhan o bump o drigolion Cymru na anwyd yn y Deyrnas Unedig rhwng 18 a 44 oed (59 y cant).[34]


---

[32] Noder, yn yr achosion hynny lle mae ffoaduriaid a mudwyr wedi ymgysylltu â gwasanaeth Cymru'n Gweithio sawl gwaith ac wedi newid oedran rhwng rhyngweithiadau, yr oedran cyntaf sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad.

[33] Noder nad yw 'gweddill y garfan o gwsmeriaid' yn cynnwys cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr.

[34] Llywodraeth Cymru (2022) Demograffeg a Mudo yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).

**Ffigur 4.4: Grwpiau oedran cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr sy'n ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio**




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio Ffoaduriaid a mudwyr wedi'u nodi (n= 1,250 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid) a holl gwsmeriaid eraill Cymru'n Gweithio (n= 93,893 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys cwsmeriaid y mae data ar oedran a gofnodwyd wedi'i gofnodi'n anghywir ar eu cyfer, er enghraifft o dan 0 neu dros 100. Yn achos cwsmeriaid a symudodd rhwng grwpiau oedran rhwng 2019 a 2023 (n= 2,679) dangosir yr oedran cyntaf a gofnodwyd ar eu cyfer fan yma.

4.9 Ar draws y garfan gyfan o gwsmeriaid Cymru'n Gweithio, mae cyfran sylweddol uwch o gwsmeriaid gwrywaidd na benywaidd (59 y cant a 41 y cant yn y drefn honno). Mewn cymhariaeth, mae bron i ddwy ran o dair o gwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn nodi eu bod yn fenywod (64 y cant; 801/1,250). Er bod hon yn gyfran uwch nag sy'n nodweddiadol ar draws pobl sydd wedi'u dadleoli yn fyd-eang[35], mae'n cyd-fynd â'r gyfran sylweddol uwch o fudwyr o Wcráin sy'n nodi eu bod yn fenywod ar draws yr holl wledydd lletyol[36]. Mae hyn yn debygol o fod wedi'i ysgogi gan ofynion rheolaeth filwrol gyfreithiol 2022 i ddynion (18-60 oed) aros yn Wcráin.

[35] Yn fyd-eang, mae cyfrannau ffoaduriaid benywaidd fel arfer yn llai na 50 y cant. Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (2021) Global Trends Report 2021.
[36] Ar draws yr holl Wledydd Lletyol, mae 70 y cant o fudwyr o Wcráin yn nodi eu bod yn fenywod. Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2023), What are the integration challenges of Ukrainian refugee women.

4.10 Mae gwybodaeth fonitro hefyd yn nodi’r iaith y mae cwsmeriaid yn ei defnyddio gartref. Ar draws cwsmeriaid a nodwyd fel ffoaduriaid neu fudwyr a ddarparodd iaith eu cartref (82 y cant; 1,020/1,250), dywedodd 80 y cant (817/1,020) mai Wcreineg oedd iaith eu cartref a dywedodd 9 y cant mai Rwsieg oedd iaith eu cartref. 92/1,020). Nid yw'r canfyddiad hwn yn syndod o ystyried y gyfran uchel o fudwyr o Wcráin a nodwyd ymhlith cwsmeriaid Cymru'n Gweithio. Yn unol ag ymrwymiadau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol (2022) i adolygu a gwerthuso data a gasglwyd am gyfranogwyr ethnig leiafrifol mewn rhaglenni cyflogadwyedd[37], bydd blaenoriaethu casglu gwybodaeth berthnasol am gwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr, fel iaith y cartref, yn helpu'r gwasanaeth i ddangos ei gyrhaeddiad yn well a bydd o gymorth wrth adolygu ymgysylltiad â chwsmeriaid yn y dyfodol.

**Canfyddiadau staff a rhanddeiliaid o'r cynnig a'i gyrhaeddiad**

4.11 Mewn cyfweliadau gwerthuso, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i staff a rhanddeiliaid ynghylch cynnig Cymru’n Gweithio ar gyfer ffoaduriaid a mudwyr. Mae’r isadran hon yn cyflwyno canfyddiadau o’r cynnig ehangach ac effeithiolrwydd ei gyrhaeddiad.

4.12 Fel a adroddwyd uchod, gwnaeth y galw am gymorth i fudwyr a ffoaduriaid gynyddu oherwydd yr achosion o wrthdaro sy'n dod i'r amlwg ac sy’n parhau ledled y byd. Noder, er bod ystod eang o ffoaduriaid a mudwyr, sydd â gwahanol amgylchiadau a phrofiadau, o bob rhan o'r byd wedi cyrchu cymorth Cymru'n Gweithio, mae mudwyr o Wcráin wedi bod yn arbennig o amlwg (fel sy’n cael ei amlygu ym mharagraff 4.6 uchod). O ganlyniad, roedd staff a rhanddeiliaid yn aml yn siarad yn benodol am fudwyr o Wcráin.

4.13 Yn gyffredinol, roedd y staff a’r rhanddeiliaid yn canmol gallu'r gwasanaeth i ymateb yn gyflym ac addasu gwasanaethau i sicrhau bod y cymorth yn hygyrch i ffoaduriaid a mudwyr. Mewn llawer o achosion, dywedodd staff fod yn rhaid iddynt, a'u bod yn gallu ymateb yn gyflym i ddarparu cynnig newydd. Er enghraifft, cyfeiriodd staff at gynnig cymorth ESOL newydd ar y cyd â phartneriaid fel Canolfannau Croeso a sefydliadau trydydd sector. Dylid canmol gallu'r gwasanaeth i weithredu cynnig gwasanaeth newydd yn gyflym ac yn hyblyg.

[37] Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

4.14 Er mwyn sicrhau bod Cymru’n Gweithio yn cyrraedd ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr sy’n dod i mewn i Gymru yn effeithiol, mae timau rhanbarthol wedi ceisio ffurfio partneriaethau ar gyfer cydleoli ac allgymorth gyda chyfres o bartneriaid arbenigol. Er enghraifft, mae timau rhanbarthol Cymru’n Gweithio wedi gweithio’n aml gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, grwpiau cymorth lleol i ffoaduriaid cheiswyr lloches a Chanolfannau Croeso i ffoaduriaid a mudwyr a sefydlwyd i gynorthwyo pobl wrth iddynt ddod i mewn i’r wlad am y tro cyntaf.

4.15 Roedd staff a rhanddeiliaid o’r farn bod sefydlu safleoedd dros dro drwy gydleoli mewn Canolfannau Croeso i ffoaduriaid a mudwyr yn effeithiol, gan ei fod wedi sicrhau bod y cyngor yn gywir, oherwydd arbenigedd staff, ac yn hawdd i bobl sy’n dod i mewn i Gymru gael gafael arno. Teimlwyd hefyd bod cymorth Cymru’n Gweithio mewn Canolfannau Croeso yn cynnig parhad gofal nad oedd gwasanaethau eraill yn gallu ei ddarparu. Mewn llawer o achosion, dywedodd rhanddeiliaid a staff fod ffoaduriaid a mudwyr yn gweithio gyda’r un gweithiwr cymorth neu’n cyfeirio at aelod arall o staff Cymru’n Gweithio ar ôl iddynt gael eu hadleoli. Roedd y staff yn awgrymu bod hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i gwsmeriaid y byddent yn parhau i gael cymorth, ni waeth ble’r oeddent wedi’u lleoli.


4.16 Roedd hyblygrwydd y safleoedd dros dro mewn Canolfannau Croeso i ffoaduriaid a mudwyr hefyd yn cael ei ganmol am eu bod yn gallu addasu ar sail angen. Dywedodd staff fod y gallu i agor a chau lleoliadau dros dro Cymru'n Gweithio, yn seiliedig ar y galw, yn sicrhau bod adnoddau Cymru'n Gweithio yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Mae'n bwysig tynnu sylw, fodd bynnag, ei bod yn ymddangos bod y broses hon wedi rhoi pwysau ychwanegol ar staff, a bod hyn wedi gwella dros amser.

4.17 'Buom yn gweithio gyda llawer o asiantaethau eraill ac yn darparu cymaint o gymorth â phosibl. Ar y dechrau cawsom ein llethu gan y niferoedd enfawr ond yn y pen draw, fe wnaeth y llwyth gwaith leihau.' **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni)**

4.18 Yn ogystal â lleoliadau dros dro mewn Canolfannau Croeso i ffoaduriaid a mudwyr, cyfeiriodd rhanddeiliaid at gydweithio â gwasanaeth Cymru’n Gweithio ar ddigwyddiadau sy’n canolbwyntio ar ffoaduriaid a mudwyr i atgyfeirio cwsmeriaid yn

uniongyrchol at wasanaeth Cymru’n Gweithio. Teimlwyd bod hyn yn effeithiol, gan ei fod yn hysbysu unigolion am y cymorth ehangach sydd ar gael iddynt, ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol mai Cymru’n Gweithio oedd y gwasanaeth priodol i droi ato i drosi cymwysterau ac y gallai Cyngor Ffoaduriaid Cymru gynnig cyfres o weithdai cyflogadwyedd. Er nad yw’r data hwn ar gael ar gyfer pob cwsmer, mae gwybodaeth fonitro yn dangos bod y gwaith partneriaeth hwn wedi gweithio’n dda, a bod ffoaduriaid a mudwyr yn cael eu hatgyfeirio at wasanaeth Cymru’n Gweithio gan amlaf drwy’r Ganolfan Byd Gwaith (60 y cant; 476/790), gwasanaethau awdurdodau lleol (12 y cant; 93/790), Cyngor Ffoaduriaid Cymru (pedwar y cant; 30/790) a Chymunedau am Waith a Mwy (tri y cant; 27/790).

**Ffigur 4.5: Sefydliad atgyfeirio cyntaf ar gyfer cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr sy'n ymwneud â gwasanaeth Cymru'n Gweithio**




Ffynhonnell: Gwybodaeth fonitro Cymru'n Gweithio (n=790 o ymgysylltiadau â chwsmeriaid). Noder nad yw hyn yn cynnwys cwsmeriaid lle nad yw'r sefydliad atgyfeirio cyntaf yn hysbys ar eu cyfer. Yn achos cwsmeriaid a ymgysylltodd â gwasanaeth Cymru’n Gweithio fwy nag unwaith, dim ond y sefydliad atgyfeirio cyntaf sydd wedi’i gynnwys fan yma.

4.19 Er mwyn gwella hygyrchedd y cymorth, mae Cymru’n Gweithio hefyd yn darparu taflenni gwybodaeth mewn 28 o ieithoedd[38] yn ogystal â thaflenni yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft yn yr Wcreineg, Rwsieg ac Arabeg. Awgrymodd

[38] Roedd taflenni gwybodaeth ar gael yn yr ieithoedd canlynol: Wcreineg, Amhareg, Arabeg, Belarwseg, Bengaleg, Tsieceg, Dari, Estoneg, Farsi, Ffrangeg, Almaeneg, Japanëeg, Cwrdeg Sorani, Latfieg, Lithwaneg, Moldofeg, Pashto, Pwyleg, Portiwgaleg, Rwmaneg, Rwsieg, Tsieinëeg Syml, Somali, Sbaeneg, Tigrinya, Tsieinëeg Traddodiadol, Twrceg, Wrdw.

rhanddeiliaid bod hyn yn sicrhau y gellid diwallu anghenion iaith cwsmeriaid ar unwaith. Cyfeiriodd staff hefyd at ddarparu 'Llinell Iaith' i sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael i unrhyw gwsmer oedd ei angen. Byddai adolygiadau mwy lleol o ddata ar lefel rhaglen ynghylch ymgysylltu â chwsmeriaid, ynghyd ag ystyriaeth wybodus o niferoedd byw ffoaduriaid a mudwyr i ardaloedd lleol, yn sicrhau bod adnoddau Cymru'n Gweithio yn cyd-fynd ag anghenion cymorth cwsmeriaid. Er enghraifft, er mwyn cael gwybodaeth am fudwyr gorfodol o Wcráin, gellid bod wedi defnyddio data'r Adran Ffyniant Bro a Thai mewn perthynas â'r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin neu'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin.[39]

4.20 Mae cymorth i ffoaduriaid a mudwyr yn cael ei arwain yn aml gan dimau arbenigol o fewn Cymru'n Gweithio. Mae hyrwyddwyr ffoaduriaid a mudwyr gorfodol / ceiswyr lloches wedi'u sefydlu o fewn pob tîm cyflawni rhanbarthol, a rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i staff ynghylch cynorthwyo cwsmeriaid o gefndiroedd amrywiol ac nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg o bosibl yn iaith gyntaf iddynt. Mae'r hyrwyddwyr hefyd yn rhoi cymorth i gydweithwyr y gallai fod angen cymorth neu gyngor arnynt wrth helpu'r grwpiau cwsmeriaid hyn. Dywedir bod gan yr aelodau hyn o staff arbenigedd ar ystod eang o faterion sy'n ymwneud yn benodol â ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches, er enghraifft, hawliau cyfreithiol i weithio a thai. Roedd staff yn canmol y cymorth a roddwyd gan yr hyrwyddwyr hyn, ac yn awgrymu bod hon yn agwedd fuddiol ar y cymorth newydd a gynigir.

4.21 Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid fod y timau arbenigol yn aml yn byw mewn canolfannau trefol am fod ffoaduriaid a mudwyr fel arfer wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hyn. O ganlyniad, mae'r cymorth yn amrywio ar draws rhai awdurdodau lleol. Mae'r ffaith bod y graddau y mae'r hyrwyddwyr arbenigol ar gael yn gyfyngedig wedi golygu bod rhai cwsmeriaid sy'n fudwyr wedi derbyn cymorth i ddechrau gan gynghorydd gyrfaoedd nad oedd yn meddu ar y set sgiliau arbenigol yma. Dywedodd rhanddeiliaid fod hyn wedi golygu bod rhai cwsmeriaid sy'n fudwyr wedi derbyn cyngor 'cyffredinol' i ddechrau yn hytrach na chyngor arbenigol yn ymwneud â'u set benodol hwy o amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cynghorwyr, lle bo'n bosibl, wedi addasu eu setiau sgiliau ac wedi ceisio cynorthwyo

[39] Yr Adran Ffyniant Bro a Thai (2022) Ukraine Sponsorship Scheme.

ystod eang o anghenion cwsmeriaid. Mae hyn yn awgrymu bod cymorth a gwybodaeth hyrwyddwyr yn cael eu gwerthfawrogi'n eang a bod eu hangen er mwyn diwallu anghenion cymhleth ymhlith cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr. Er bod holl staff Cymru’n Gweithio wedi ceisio cynorthwyo cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr, mewn ardaloedd mwy gwledig, awgrymir bod angen rhannu mwy o adnoddau a gwybodaeth yn fewnol, oddi mewn i wasanaeth Cymru’n Gweithio. Bydd hyn yn sicrhau bod dull cyson a gwybodus yn cael ei ddefnyddio gyda ffoaduriaid a mudwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ledled y wlad.

4.22 Cyfeiriodd staff a rhanddeiliaid Cymru’n Gweithio at ystod eang o bartneriaethau newydd a ddatblygwyd i sicrhau bod anghenion cymorth cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn cael eu diwallu. Dywedodd staff fod cydleoli yn hwyluso’r arfer o gydweithio â swyddogion cyswllt a phartneriaid eraill, a bod hyn yn ei gwneud yn haws darparu cymorth cofleidiol i gwsmeriaid.

4.23 'Gallwn weld y mudwyr gorfodol yn eu cymunedau a chydgysylltu cymorth gyda phartneriaid lle mae gweithwyr allweddol a chymunedau am waith wedi’u neilltuo ar eu cyfer. Mae wedi bod yn bwysig iawn ein bod wedi bod yn rhan o'r pecyn cymorth yna o amgylch y cwsmeriaid.' **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni)**

4.24 Mae gweithio mewn partneriaeth wedi galluogi cwsmeriaid i gael mynediad at ystod o sefydliadau trydydd sector ar gyfer ystod eang o anghenion, gan gynnwys tai, gofal plant ac iechyd meddwl, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Er bod gweithio gydag ystod eang o bartneriaid wedi sicrhau y gall Cymru’n Gweithio gyfeirio cwsmeriaid at ystod eang o gynigion cymorth, mae’n bwysig nodi y gall fod yn heriol i staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am ystod eang o gynigion cymorth, y tu hwnt i gymorth cyflogadwyedd traddodiadol.

4.25 '[Yr her yw] gwneud yn siŵr ein bod ni'n ymwybodol o bopeth, oherwydd mae yna dipyn o sefydliadau, rhai newydd weithiau, ac elusennau a mudiadau gwirfoddol newydd. Rydyn ni’n gweithio gydag arweinwyr y mudiadau gwirfoddol yn yr awdurdod i wneud yn siŵr, os oes unrhyw sefydliadau newydd yn dod i'r amlwg sy’n cynnig cymorth, eu bod nhw’n gweithio gyda ni, felly mae hynny'n waith parhaus i mi, o ran cael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth sydd ar gael.' (**Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni**)

4.26 Yn gyffredinol, er bod hyblygrwydd Cymru’n Gweithio a’i gallu i addasu yn cael ei ganmol yn eang, mae hefyd perygl ei fod yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff. Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad terfynol, er mwyn sicrhau cylch gwaith 'dull lleol' sy'n glir, wedi'i dargedu ac sy’n cael ei gefnogi, dylai sesiynau strategol ffurfiol gael eu hamserlennu rhwng timau rhanbarthol a chenedlaethol Cymru'n Gweithio, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch allgymorth a chydleoli yn cael eu llywio gan y galw, yr angen yn lleol, a’r cymorth ehangach sy’n cael ei gynnig.

4.27 Mewn llawer o achosion, pwysleisiodd staff a rhanddeiliaid fod y cyngor gyrfaoedd craidd y mae Cymru’n Gweithio yn ei gynnig yn gyffredinol ac, o ganlyniad, mae’r cymorth sy’n cael ei gynnig i ffoaduriaid a mudwyr yn gyson â’r cymorth sy’n cael ei gynnig i gwsmeriaid eraill. Fodd bynnag, deellir hefyd bod cymorth i ffoaduriaid a mudwyr yn canolbwyntio mwy ar gymorth ESOL a throsi cymwysterau. Bydd hyn yn cael ei archwilio'n fanylach yn yr is-adran ganlynol.

**Canfyddiadau o’r cymorth wedi'i deilwra sy’n cael ei gynnig**

4.28 Fel yr amlygwyd yn flaenorol, roedd staff a rhanddeiliaid yn canmol gallu Cymru’n Gweithio i addasu’r gwasanaeth yn gyflym ac yn hyblyg i sicrhau y gallai gynorthwyo ffoaduriaid a mudwyr o gefndiroedd amrywiol ac sydd ag ystod o anghenion cymorth. Mae’r is-adran hon yn egluro’n fanylach yr ystod o gymorth ychwanegol sy’n cael ei ddarparu i ffoaduriaid a mudwyr drwy wasanaeth Cymru’n Gweithio.

4.29 Dywedodd staff, rhanddeiliaid a chwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn gyson mai darpariaeth ESOL oedd yr angen allweddol o ran cymorth ar gyfer ffoaduriaid a mudwyr sy’n defnyddio gwasanaeth Cymru’n Gweithio. Dywedodd staff a rhanddeiliaid yn aml fod mudwyr o Wcráin, yn arbennig, yn aml yn fedrus iawn ac yn gofyn am gymorth gan nad oeddent yn gallu dod o hyd i rolau a oedd yn cyfateb i’w sgiliau. Roedd hyn oherwydd eu hanallu i sgwrsio’n hyderus yn Saesneg, yn ogystal â’r angen i drosi eu cymwysterau proffesiynol i rai cyfwerth yn y Deyrnas Unedig. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a

Sgiliau i Ffoaduriaid y soniwyd amdani eisoes[40], lle canfuwyd yn aml bod mudwyr yn gorfod chwilio am waith arall nad yw'n cyd-fynd â'u dyheadau.

4.30 'Mae'r rhwystr iaith wedi bod yn aruthrol. Mae'n fater o addasu i ddiwylliant newydd. Mae'n fater o drosi eu cymwysterau ac yna gwneud yn siŵr bod eu hiaith ar lefel ymarferol iddyn nhw gael gwaith.' **(Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni)**

4.31 Soniodd staff am atgyfeirio cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid a mudwyr i ystod o golegau a chanolfannau dysgu cymunedol er mwyn iddynt gael darpariaeth ESOL. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod ystod eang o raglenni cymorth, e.e. ReACT+ a Chymunedau am Waith, hefyd yn cynnig darpariaeth ESOL a throsi cymwysterau (drwy Gynllun Rhwydwaith Ewropeaidd o Ganolfannau Gwybodaeth). Yn yr achosion hyn, awgrymir bod staff Cymru'n Gweithio yn cyfeirio cwsmeriaid yn uniongyrchol at y gwasanaeth mwyaf priodol ond yn parhau i weithio gyda nhw pe bai angen cyngor gyrfaoedd ychwanegol.

4.32 Er mwyn sicrhau bod cymorth Cymru'n Gweithio ar gyfer ffoaduriaid a mudwyr yn cael ei deilwra'n effeithiol i weddu i anghenion ystod o unigolion, pwysleisiodd rhanddeiliaid pa mor bwysig ydyw i staff gael dealltwriaeth fanwl o wahanol statws cyfreithiol, gofynion fisa a hawl i weithio. Dywedodd staff y gallai deall y manylion a'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â gwahanol statws cyfreithiol ffoaduriaid a mudwyr fod yn heriol, yn arbennig, lle nad oedd staff wedi gweithio llawer gyda ffoaduriaid a mudwyr o'r blaen. Mae dryswch ynghylch y gwahanol derminoleg yn ymddangos yn amlwg mewn adborth cyfweliadau a gwybodaeth fonitro gan fod y termau ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches yn cael eu defnyddio'n anghyson. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae angen mwy o rannu adnoddau a gwybodaeth yn fewnol oddi mewn i Cymru'n Gweithio i sicrhau bod dull cyson a gwybodus yn cael ei ddefnyddio gyda ffoaduriaid a mudwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ledled y wlad.

4.33 Agwedd bwysig ar y cymorth sy'n cael ei gynnig gan staff oedd darparu gwybodaeth am ddiwylliant gweithio a gweithleoedd yng Nghymru, o gymharu â gwlad gartref y cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod

[40] Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.

cwsmeriaid yn deall eu hawliau fel gweithwyr e.e. isafswm cyflog a hawl i gontract cyflogaeth, yn ogystal â gwahaniaethau sectoraidd a disgwyliadau gweithwyr. Dywedodd staff yn aml fod angen cymorth cyflogadwyedd ysgafn yn aml i sicrhau bod CVs cwsmeriaid yn cyd-fynd ag arddull ymgeiswyr y Deyrnas Unedig ac i'w paratoi ar gyfer y prosesau cyffredinol sy’n rhan o gyfweliadau a diwylliant y gweithle e.e. yr hyn sydd i’w ddisgwyl ganddynt a’u hawliau fel gweithwyr. Gwelwyd bod hyn yn paratoi cwsmeriaid ar gyfer trafodaethau anffurfiol gyda'u darpar gyflogwyr a sicrhau eu bod yn gallu bodloni disgwyliadau cyffredinol y gweithle.

4.34 Roedd staff cyflenwi a rhanddeiliaid yn cydnabod nad yw llawer o ffoaduriaid a mudwyr medrus yn gallu ailymuno’n hawdd â’r rôl yr oeddent wedi’u cyflogi ynddi yn eu gwledydd cartref. Roedd y rhesymau pam na allai ffoaduriaid a mudwyr ailymuno â’u rolau blaenorol yn amrywio, er enghraifft, gallu cyfyngedig yn y Saesneg, diffyg rolau ar gael, lleoliad a/neu opsiynau trosi cymwysterau yn gymhleth. Teimlwyd bod ailymuno â rolau blaenorol yn arbennig o heriol i gwsmeriaid a oedd wedi'u cyflogi'n flaenorol mewn math o rôl feddygol e.e. nyrsys, meddygon a deintyddion.  Er ei bod yn bwysig nodi bod pa rolau sydd ar gael y tu allan i reolaeth Cymru’n Gweithio, roedd staff a rhanddeiliaid yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd pennu disgwyliadau gyda chwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr. Mewn rhai achosion, roedd gosod disgwyliadau yn cynnwys staff yn cynorthwyo cwsmeriaid i gael mynediad at y cymwysterau ychwanegol, y profiad gwaith a/neu’r cymorth sydd ei angen i sicrhau y gallai eu sgiliau gael eu defnyddio’n effeithiol yng Nghymru. Er enghraifft, darparu mynediad i gyrsiau hylendid er mwyn ennill tystysgrifau lletygarwch neu iechyd a diogelwch. Mewn achosion eraill, roedd gosod disgwyliadau yn golygu bod yn rhaid i staff hysbysu cwsmeriaid na fyddai’n hawdd iddynt ailymuno â'u dewis broffesiwn oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth staff a chwsmeriaid e.e. gofynion cymwysterau gwahanol. Y mae i’w ddisgwyl y bydd angen dulliau gwahanol o bennu disgwyliadau ar gyfer gwahanol gwsmeriaid o dan wahanol amgylchiadau.

4.35 Mewn rhai achosion, ni fydd yn bosibl i ffoaduriaid a mudwyr ddod o hyd i swydd yn hawdd yn eu dewis broffesiwn oherwydd prinder y swyddi hynny yn eu lleoliad. Dywedodd lleiafrif o randdeiliaid ei bod yn ymddangos bod dulliau staff Cymru’n Gweithio o bennu disgwyliadau yn amrywio ymhlith aelodau staff. Awgrymodd rhanddeiliaid, lle mae dulliau’n amrywio, fod hyn yn aml oherwydd bod gan staff

brofiad blaenorol cyfyngedig o weithio gyda ffoaduriaid a mudwyr (mewn ardaloedd gwledig yn aml). Dylai darpariaeth Cymru’n Gweithio yn y Dyfodol sicrhau bod dulliau staff o bennu disgwyliadau yn gyson a’u bod yn cyd-fynd â dealltwriaeth ehangach ynghylch bylchau sgiliau yn y sector a gofynion cymwysterau penodol. Rhagwelir y gallai hyn gael ei gefnogi trwy rannu gwybodaeth yn well ynghylch gweithio gyda chwsmeriaid o gymunedau ffoaduriaid a mudwyr. Bydd hyn yn galluogi staff Cymru’n Gweithio fynd ati’n well i gynorthwyo cwsmeriaid sydd â’r sgiliau gofynnol i gael i mewn i’r hyfforddiant, y cymorth neu’r rôl briodol, tra’n cydnabod bod rhai rhwystrau a wynebir y tu hwnt i reolaeth staff Cymru’n Gweithio.

**Myfyrdodau cwsmeriaid ar y cymorth a gynigir a'i effaith**

4.36 Mae'r adran hon yn archwilio canfyddiadau cwsmeriaid a gymerodd ran yng ngrwpiau ffocws y gwerthusiad. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith, er bod yr isadran hon yn cyflwyno profiad yr 14 o gwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr a gymerodd ran yng ngwaith maes y gwerthusiad, efallai nad yw hyn yn adlewyrchu profiad pobl eraill o wasanaeth Cymru'n Gweithio.

4.37 Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod wedi ymgysylltu â Cymru’n Gweithio, dywedodd cwsmeriaid eu bod yn chwilio am gymorth ar sut i gael gwaith a sut i gyfathrebu’n effeithiol â chyflogwyr. Roedd hyn yn aml yn cynnwys cymorth i chwilio am swyddi a chyflwyno ceisiadau. Ynghyd â chwilio am swyddi cyflogedig, roedd cwsmeriaid yn aml yn mynegi diddordeb mewn deall cwmpas rolau gwirfoddol neu leoliadau gwaith yn unol â’u llwybr gyrfa blaenorol, er mwyn deall yn well sut y gallent ailymuno â’u dewis sector yn y DU. Er enghraifft, awgrymodd rhai cwsmeriaid eu bod wedi ymgysylltu â Cymru’n Gweithio am eu bod yn dymuno cael profiad gwaith, mewn cwmni cyfrifyddu neu o mewn lleoliad gofal iechyd, er mwyn cynyddu eu gwybodaeth am brotocolau ac iaith sy’n benodol i’r rôl. Yn yr achosion hyn, mae'n bwysig nodi bod cwsmeriaid yn aml yn mynegi hoffter o rolau gwirfoddol, sy'n berthnasol i'w dewis broffesiwn, yn hytrach na rolau cyflog isel nad oeddent yn cyd-fynd â'u sgiliau.

4.38 Yn fwyaf cyffredin, dywedodd cwsmeriaid eu bod wedi ymgysylltu â gwasanaeth Cymru’n Gweithio drwy nifer o apwyntiadau wyneb yn wyneb a oedd wedi’u trefnu, wedi eu hategu gan nifer o ymgysylltiadau ad hoc ar-lein er mwyn cael y wybodaeth

ddiweddaraf. Caiff hyn ei ategu gan y wybodaeth fonitro, sy'n dangos bod dros hanner yr holl gwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr a nodwyd wedi defnyddio cymorth Cymru'n Gweithio o bell ac wyneb yn wyneb (57 y cant; 679/1,189[41]), roedd traean wedi derbyn cymorth wyneb yn wyneb yn unig (33 y cant; 391/1,189) a 10 y cant wedi derbyn cymorth o bell yn unig (119/1,189).

4.39 Un o gryfderau allweddol cymorth wyneb yn wyneb, a nodwyd gan gwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr, oedd ei fod yn caniatáu i gwsmeriaid ymarfer sgwrsio yn Saesneg, a nodwyd bod hyn yn gymhwysedd allweddol i symud ymlaen ar eu taith gyflogadwyedd. Roedd staff hefyd yn teimlo ei bod yn haws goresgyn rhwystrau iaith wyneb yn wyneb. Roedd staff hefyd o'r farn bod cymorth wyneb yn wyneb yn fwy hygyrch i rai cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr â gallu technegol isel neu ddiffyg offer e.e. ffôn neu liniadur â mynediad i'r rhyngrwyd. Ar y cyfan, roedd nifer o gwsmeriaid yn canmol yr amser a gymerwyd i drafod cryfderau neu fylchau o ran sgiliau a gwybodaeth wyneb yn wyneb. Awgrymwyd bod hyn yn sicrhau bod cwsmeriaid wedyn yn cael cymorth wedi'i dargedu sy'n berthnasol i'w hanghenion.

4.40 I rai o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd, roedd heriau'n gysylltiedig â chymorth wyneb yn wyneb. Er enghraifft, dywedodd cwsmeriaid hefyd y gallai amgylchedd prysur safleoedd ffisegol Cymru'n Gweithio, ynghyd ag acenion rhanbarthol, ar adegau ei gwneud yn anodd iddynt deimlo eu bod yn gallu cyfathrebu'n llawn â staff Cymru'n Gweithio. Mae'n bosibl bod yr anhawster hwn hefyd yn cael ei brofi gan gwsmeriaid ehangach Cymru'n Gweithio, er enghraifft y rheini ag anghenion cyfathrebu fel colled clyw. Dywedodd lleiafrif o gwsmeriaid hefyd y gallai gymryd amser hir i deithio i safleoedd Cymru'n Gweithio a'i bod yn anodd cael gofal plant er mwyn mynd i apwyntiadau Cymru'n Gweithio. Er bod y cwsmeriaid a gyfwelwyd yn canmol yr amser a gymerwyd i ymwneud ag unigolion, awgrymwyd hefyd, lle'r oedd angen nifer o apwyntiadau, y gallai fod yn heriol i'r cwsmer fynd i bob apwyntiad. Er y caiff ei gydnabod ei bod yn debygol y bydd angen nifer o apwyntiadau ar gyfer ystod o anghenion cymorth, teimlai cwsmeriaid y byddai llai o apwyntiadau yn helpu i liniaru pwysau amser ac ariannol. Yn y dyfodol, dylai darpariaeth sicrhau bod cymorth wyneb yn wyneb yn parhau i gael ei gynnig i gwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn

[41] O'r 1,250 o ffoaduriaid a mudwyr a gafodd gymorth, roedd data rhyngweithio ar gael ar gyfer 1,189.

fudwyr ond, os yw’n well ganddynt, dylid lleihau nifer yr apwyntiadau lle bo modd i liniaru heriau cysylltiedig.

4.41 Myfyriodd y cwsmeriaid ar sut mae Cymru’n Gweithio wedi helpu eu dealltwriaeth o’r cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael iddynt a’r camau sydd eu hangen i ddechrau ar eu taith i gyflogaeth. Roedd cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn ei chael hi'n ddefnyddiol ymgysylltu ag unigolion penodol i gael cymorth wedi'i gyfeirio at ffoaduriaid a mudwyr, yn hytrach na chymorth mwy cyffredinol fel derbyn hysbysebion swyddi heb unrhyw ryngweithio.

4.42 'Rhoddodd [Cymru'n Gweithio] unrhyw beth roedd ei angen arnaf i, mwy nag oeddwn i’n ei ddisgwyl.' (**Cwsmer sy’n fudwr gorfodol**)

4.43 Gan fyfyrio ar y cymorth a gawsant, roedd cwsmeriaid yn canmol staff Cymru'n Gweithio, ac yn awgrymu eu bod yn darparu cyngor wedi'i deilwra mewn ffordd anffurfiol ac yn rhoi ystyriaeth effeithiol i anghenion unigol y cwsmer. Roedd y cwsmeriaid hefyd yn nodi gwerth rhannu rhestrau swyddi ar-lein yn ôl maes pwnc, gan wneud y rhestrau’n haws eu defnyddio.

4.44 'Fel mudwr dydyn ni ddim yn gwybod sut mae'n gweithio yma ac felly fe allwn ni gael llawer o help ganddyn nhw - gwneud cais, dod o hyd i swyddi, sut rydyn ni'n dod o hyd i’r llwybr cywir. (**Cwsmer sy’n fudwr gorfodol**)

4.45 'Maen nhw'n dangos y ffordd iawn i ni, fel arall dydyn ni ddim yn gwybod beth allwn ni ei wneud a pha ffordd i fynd.' (**Cwsmer sy’n fudwr gorfodol**)

4.46 Lle nad oedd staff Cymru’n Gweithio yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth, esboniodd cwsmeriaid eu bod yn cael eu cyfeirio at ddarpariaeth arall, fel cyrsiau coleg i oedolion neu gyllid i sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu prynu gwisg briodol ar gyfer cyfweliad. Roedd y staff yn ystyried bod yr ail elfen hon yn agwedd bwysig ar y cymorth gan awgrymu bod llawer o fudwyr gorfodol yn cyrraedd Cymru heb y dillad na'r offer angenrheidiol i ddod o hyd i waith ac nad oedd ganddynt yr arian i gael gafael arnynt yn annibynnol. Fel yr amlygwyd gan staff a rhanddeiliaid, mae partneriaethau ag ystod eang o sefydliadau wedi galluogi Cymru’n Gweithio i fod yn rhan o’r cymorth cofleidiol sy’n cael ei gynnig i ffoaduriaid a mudwyr wrth iddynt

ddod i mewn i Gymru. Mae adborth cwsmeriaid yn awgrymu bod y cynnig hwn yn effeithiol.

4.47 'Mae'n rhoi gwasanaeth da i bobl ddod o hyd i swydd, a'u helpu i ddal ati; fel arall ni all pobl ddod o hyd i bethau sydd eu hangen arnyn nhw.' (**Cwsmer sy'n fudwr gorfodol**)

4.48 Er bod cymorth wedi'i deilwra ar gael drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio, roedd rhai cwsmeriaid yn teimlo bod y rheini yr oedd angen cymorth cyflogadwyedd cyffredinol arnynt mewn gwell sefyllfa i gael cymorth drwy'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys y rhai â mwy o hyblygrwydd o ran y math o swydd y mae'n nhw'n dymuno ei chael a'r graddau y mae'r swyddi hynny ar gael. Fel y nodwyd hefyd gan y staff, roedd cwsmeriaid yn aml yn myfyrio ar eu brwydr i ddod o hyd i waith medrus sy'n berthnasol i'w profiad, yn aml oherwydd mai ychydig o Saesneg sydd ganddynt, neu am nad oedd llawer o'r rolau hynny ar gael yn eu hardal hwy. Er bod rolau lefel mynediad yn rhoi cyfle i ennill cyflog, nid oedd canfyddiad eu bod yn helpu i adeiladu bywydau ffoaduriaid a mudwyr yn y Deyrnas Unedig, nac yn cynnig cyfleoedd dilyniant sy'n berthnasol i'w sgiliau, a nodwyd yn nod allweddol gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid a gyfwelwyd. Fodd bynnag, dywedodd cwsmeriaid eu bod yn fwy tebygol o dderbyn rolau islaw eu lefel sgiliau os oedd mwy o siawns, o ganlyniad i'r profiad hwn, o gael gwaith yn eu dewis broffesiwn wedyn. Er bod darparu rolau perthnasol, fel a nodwyd, y tu hwnt i reolaeth Cymru'n Gweithio, mae hyn yn ailadrodd yr angen i staff Cymru'n Gweithio reoli disgwyliadau cwsmeriaid yn effeithiol ynghylch yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

4.49 'Mae'n haws cynorthwyo'r rhai sy'n chwilio am gymorth generig. Er fy mod i'n ddiolchgar am y swydd sydd gen i, byddwn wrth fy modd yn cael cymorth yn benodol i ddod o hyd i'r rôl oedd gen i o'r blaen. Mae llawer ohonom ni wedi derbyn addysg dda ac eisiau parhau â hynny wrth ddod yma.' (**Cwsmer sy'n fudwr gorfodol**)

4.50 O ystyried y galw a nodwyd am gymorth iaith, roedd mynediad at ESOL yn cael ei drafod yn aml wrth i gwsmeriaid roi adborth, ac roedd eu safbwyntiau'n wahanol yn dibynnu ar argaeledd ac angen. Gyda llawer o fudwyr gorfodol yn cyrraedd yn ystod misoedd yr haf, ychydig iawn o ddarpariaeth ESOL oedd ar gael yn y tymor byr am

fod y colegau ar gau. Yn yr un modd, roedd cyrsiau'n aml yn cael eu darparu gyda'r nos. Nodwyd bod dosbarthiadau nos, ar adegau, yn heriol i'w mynychu oherwydd anawsterau cwsmeriaid ynghylch gallu teithio a derbyn gofal plant. Roedd y rhwystrau hyn yn arbennig o heriol i'r rhai a oedd wedi gallu cael gwaith ac, o ganlyniad, a oedd wedi'u cyfyngu o ran amserau. Roedd staff cyflawni'n rhannu'r farn hon, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod ESOL ar gael yn rhwydd i fudwyr gorfodol i'w helpu i bontio i fywyd yn y Deyrnas Unedig. Er bod yr agwedd hon ar y cymorth yn cael ei darparu'n allanol, mae'n dystiolaeth o ba ofynion cymorth sydd i'w blaenoriaethu gan bartneriaid ehangach sy'n gweithio gyda Cymru'n Gweithio a'r garfan o ffoaduriaid/mudwyr.

4.51 'Mae eisoes gennym lawer o straeon o lwyddiant ymhlith mudwyr gorfodol, ond fel cenedl, rwy'n credu bod angen inni gynyddu'r adnoddau ESOL sydd ar gael iddyn nhw fel y gallan nhw symud yn gyflym i mewn i swyddi a deall y diwylliant Cymreig yn gyflym.' (**Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni**)

4.52 Er ei fod yn fuddiol i ddatblygiad iaith, awgrymodd cwsmeriaid y byddai'n fuddiol i ddosbarthiadau ESOL gael eu rhannu ar sail gallu'r mynychwyr er mwyn helpu i sgiliau gael eu datblygu'n effeithlon. Yn yr un modd, dywedodd cwsmeriaid y byddent yn elwa pe bai cymorth ESOL yn canolbwyntio mwy ar rôl, yn hytrach na chymorth generig yn yr iaith Saesneg. Er enghraifft, iaith ffurfiol i helpu i ymgysylltu â chyflogwyr, neu iaith benodol ar gyfer sectorau/rolau. Oddi mewn i hyn, soniodd ffoaduriaid a mudwyr am fudd ymgysylltu â grwpiau sgwrsio Saesneg, fel dull llai ffurfiol o wella eu sgiliau iaith. Er nad yw'n gwrs ffurfiol, roedd y grwpiau hyn yn gweithredu fel pont i'w helpu i ddysgu. Caiff ei gydnabod bod hwn yn angen ehangach, y tu hwnt i gylch gwaith darpariaeth Cymru'n Gweithio, ond mae'n bwysig gan ei fod yn amlygu rhwystrau ac anghenion cymorth cwsmeriaid Cymru'n Gweithio.

### Barn cwsmeriaid am fylchau canfyddedig mewn cymorth ac anghenion cymorth ychwanegol

4.53 Gan werthfawrogi cynnig Cymru'n Gweithio a chydnabod y cymorth penodol i'r garfan, roedd cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn gymysg ynghylch i ba raddau yr oedd y cymorth yn diwallu eu hanghenion penodol. Y bwlch amlycaf yn y

cymorth, a nodwyd gan gwsmeriaid, oedd nad oedd y swyddi sydd a’r gael a sgiliau’r cwsmeriaid yn cyd-fynd â’i gilydd, ac roedd hynny wedi’i waethygu gan ofynion iaith. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd uchod, roedd yr heriau a oedd yn gysylltiedig â’r graddau yr oedd rolau ar gael yn aml y tu hwnt i gylch gwaith staff Cymru'n Gweithio. Mae hyn yn dangos y dylai darpariaeth yn y dyfodol adolygu os a sut y gall staff ymdrin â disgwyliadau cwsmeriaid a'u rheoli'n well. Byddai hyn yn sicrhau bod cylch gorchwyl y gwasanaeth yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol i gwsmeriaid.

4.54 Yn achos cwsmeriaid sydd â phlant dibynnol, nodwyd rhywfaint o anghenion cymorth ychwanegol a fyddai'n eu cynorthwyo ar eu taith. Roedd cwsmeriaid yn aml yn nodi’r her o ran ymwneud â maes gofal plant wrth fynd i apwyntiadau a derbyn hyfforddiant, ac roedd hyn hefyd yn cwmpasu dod o hyd i gyflogaeth addas. O ystyried mater mor fawr yw sefydlu bywyd newydd mewn gwlad newydd, nododd cwsmeriaid eu diffyg dealltwriaeth o ran derbyn gofal plant, yn ogystal â'r system addysg ar gyfer dibynyddion oedran ysgol. Ystyriwyd bod hyn yn rhwystr sylweddol i ddod o hyd i waith, yn enwedig o ystyried cost arfaethedig gofal plant preifat. O ganlyniad, gofynnodd y cwsmeriaid i anghenion gofal plant gael eu hystyried ochr yn ochr â’u hanghenion cyflogadwyedd wrth ymdrin â chymorth gan Cymru’n Gweithio. Rhagwelir y gallai hyn gynnwys atgyfeiriadau at bartneriaid a allai ddarparu cyngor ar ofal plant a/neu addysg.

4.55 Gan fyfyrio ar y profiad yn gyffredinol, awgrymodd cwsmeriaid, er bod staff Cymru'n Gweithio o gymorth, y byddai'r gwasanaeth yn elwa pe bai’r staff yn fwy cynrychioliadol o'r grwpiau yr oeddent yn ceisio eu cynorthwyo. Yn yr achosion hyn, dywedodd cwsmeriaid eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol o'r gwasanaeth, ond am nad oedd y staff yn gyffredinol yn ffoaduriaid nac yn fudwyr, roeddent yn teimlo nad oedd y staff bob amser yn cydymdeimlo â'r problemau y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu na'u hanghenion. Roedd y teimlad hwn i'w weld yn rhannol mewn adborth ehangach gan staff, lle'r oedd staff yn cydnabod bod y tîm ar y cyfan yn bobl wyn nad oeddent yn fudwyr ac a oedd wedi'u geni yn y Deyrnas Unedig. Rhagwelwyd felly y gallai cwsmeriaid fod yn llai tebygol o ymgysylltu â rhywun nad oeddent yn ystyried eu bod yn eu cynrychioli. I liniaru'r rhwystr hwn wrth symud ymlaen, byddai'n fuddiol edrych ar ddulliau er mwyn i'r tîm cyflawni fod yn cynrychioli'r

garfan amrywiol o gwsmeriaid. Er enghraifft, galluogi mudwyr a ffoaduriaid sydd wedi ymgysylltu â’r cymorth, i weithredu fel hyrwyddwyr neu eiriolwyr oddi mewn i’r cymorth sy’n cael ei gynnig neu wella ymwybyddiaeth staff o gynrychiolaeth ddiwylliannol trwy gynnwys pynciau sy’n ddiwylliannol berthnasol mewn hyfforddiant[42].

4.56 'Mae'r rhyfeloedd hyn yn dreisgar, ac mae angen inni ddeall yr effaith maen nhw’n ei chael ar y cwsmeriaid o ran trawma ac fel arall.' (**Cyfweliad â staff rheoli a chyflawni**)

4.57 Ystyriaeth arall ynghylch y cymorth, y teimlai cwsmeriaid y gellid ei chryfhau, oedd ymdrech i annog cyflogwyr i ddeall manteision cyflogi ffoaduriaid a mudwyr yn well. Roedd hyn yn deillio o’r ffaith bod cwsmeriaid o’r garfan hon yn gwneud cais i lawer o rolau y maent yn gymwys ar eu cyfer, ond roedd eu hadborth yn nodi bod eu diffyg Saesneg yn golygu nad oeddent yn cael eu hystyried ar gyfer y rôl. Tra'n cydnabod cyfrifoldeb cwsmeriaid i wella eu sgiliau iaith yn annibynnol, byddai annog cyflogwyr i ddeall yn well gyfraniad cadarnhaol posibl ffoaduriaid a mudwyr yn y gweithle yn hwb pellach i’r arfer o ddysgu iaith sy'n benodol i'r llwybr gyrfa y mae’r cwsmeriaid yn dymuno ei dilyn. Byddai cyfeirio at wasanaethau sy’n cynnig darpariaeth cymorth ESOL yn y gwaith hefyd yn lliniaru’r rhwystrau o ran bod ar gael, gan y gallai cwsmeriaid fynychu cyrsiau yn ystod amser gwaith.

4.58 Nododd staff angen tebyg, gan adrodd er bod cyflogwyr yn ymwneud â’r cymorth sy’n cael ei gynnig, mae lle i wneud mwy o’r ymgysylltiad hwn. Roedd enghreifftiau i wneud hyn yn cynnwys creu cyfeiriadur o rolau, nad oes angen lefelau uchel o Saesneg arnynt, neu o gwmnïau mwy sy’n cynnig rolau o bell neu rolau y gellir eu trosglwyddo rhwng safleoedd. Yn bwysig, byddai hyn yn nodi cyflogwyr neu rolau Cymru gyfan, a allai annog ymgysylltiad â chwsmeriaid waeth beth fo'r pryderon ynghylch adsefydlu.

4.59 Awgrym arall i bontio’r bwlch rhwng cyflogwyr a chwsmeriaid sy’n ffoaduriaid / mudwyr, yn debyg i geisiadau cwsmeriaid am rolau gwirfoddol, oedd annog cyflogwyr i ystyried cynnig lleoliadau profiad gwaith. Gallai hyn gynnwys cwrs

[42] Deellir bod staff Cymru’n Gweithio wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol yn unol â chamau gweithredu yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Gyrfa Cymru 2022-2023.

cyflogadwyedd, gan ddefnyddio darpariaeth partner presennol fel gweithdai Cyngor Ffoaduriaid Cymru. Caiff ei gydnabod bod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, yn arbennig, yn ymgysylltu'n helaethach â chyflogwyr na Chymru'n Gweithio. Felly, awgrymir bod trafodaethau ynghylch ymgysylltu â chyflogwyr yn cael eu cynnwys o fewn cyfarfodydd dealltwriaeth Gyrfa Cymru, timau rhanbarthol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol fel yr argymhellwyd yn flaenorol.

**Mae myfyrdodau strategol ar y cymorth yn cynnig cryfderau a heriau allweddol**

4.60 Un o gryfderau cymorth Cymru'n Gweithio sy'n cael ei gydnabod yn eang, a nodwyd gan gwsmeriaid a staff, yw gallu'r gwasanaeth i ddarparu cymorth â ffocws i ffoaduriaid a mudwyr, y tu hwnt i gymorth cyflogadwyedd cyffredinol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys mynediad wedi'i ariannu i gynllun Rhwydwaith Ewropeaidd o Ganolfannau Gwybodaeth, sy'n elfen bwysig o gymorth i ystod eang o gwsmeriaid cymwys. Rhwng Ebrill 2022 a Rhagfyr 2023, roedd Cymru'n Gweithio wedi cefnogi 786 o geisiadau i'r cynllun.[43] Mae'r cymorth hwn, ynghyd â mynediad at ddarpariaeth ESOL a chynigion cymorth iaith eraill, yn darparu'r 'cerrig camu' gofynnol i ffoaduriaid a mudwyr barhau â'u gyrfa ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig.

4.61 Fel yr amlygwyd ar gyfer y gwasanaeth yn fwy cyffredinol, un o gryfderau allweddol y cynnig yw'r cymorth sydd ar gael i Gymru gyfan. Roedd staff o'r farn bod hyn yn cael effaith arbennig ar gwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr gorfodol ar sail natur dros dro eu cyflogaeth oherwydd gofynion ailsefydlu. Mae'r cymorth sydd ar gael ledled Cymru wedi galluogi cwsmeriaid i gael mynediad at gymorth parhaus trwy gysylltiad effeithiol rhwng partneriaid. Mynegodd staff hefyd bwysigrwydd y gallu i drosglwyddo gwybodaeth fanwl rhwng timau, er mwyn darparu cymorth perthnasol heb i gwsmeriaid orfod ailddechrau eu taith cyflogadwyedd wrth symud.

4.62 Cyfeiriodd staff a rhanddeiliaid at heriau ehangach o ran darparu ar gyfer yr anghenion iaith a nodwyd. Er enghraifft, o ystyried y niferoedd cynyddol o ffoaduriaid a mudwyr sydd angen cymorth, roedd yn cael ei gydnabod bod angen i ddarpariaeth cyfieithu ar unwaith fod yn fwy hygyrch. Er bod 'Llinell Iaith' ar gael, esboniodd staff y byddai sicrhau bod cyfieithu wyneb yn wyneb ar gael yn annog

[43] Noder y darparwyd y manylion hyn i'r ymchwilwyr gan dîm rheoli Cymru'n Gweithio.

ymgysylltiad llawn mewn apwyntiadau i'r rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n hyderus yn Saesneg ar hyn o bryd. Yn ei dro, gallai hyn ennyn hyder yn effeithiolrwydd y cymorth a gynigir, drwy ystyried anghenion cyfathrebu cwsmeriaid. Nododd staff hefyd heriau o ran darparu manylebau swyddi a ffurflenni cais wedi'u cyfieithu, a oedd o ganlyniad yn cyfyngu ar lefel y dewis i'r rhai sy'n chwilio am waith ar unwaith sydd â sgiliau iaith Saesneg cyfyngedig ar hyn o bryd.

4.63 Dywedodd staff hefyd, er nad yw'n cael ei ddarparu gan staff Cymru'n Gweithio, nad yw'r ddarpariaeth ESOL bob amser yn bodloni anghenion y cwsmer, oherwydd ei bod yn araf yn hytrach na'i fod yn cael ei gyflwyno'n ddwys. Mae'n bwysig pwysleisio, fodd bynnag, fod gan Cymru'n Gweithio a STEP Ukraine gontract cynnal lle mae cynghorwyr cyflogadwyedd STEP Ukraine yn gweithio'n agos gyda staff Cymru'n Gweithio i sicrhau bod y cymorth sy'n cael ei gynnig gan y ddau yn ategu ei gilydd. Gall mudwyr gorfodol o Wcráin sy'n cael cymorth trwy wasanaeth Cymru'n Gweithio hefyd gael cymorth ESOL dwys trwy STEP Ukraine (cwrs 10 wythnos a oedd yn cynnwys 2.5 awr o gymorth ESOL y dydd)[44]. Er bod canfyddiad bod cymorth ESOL y tu hwnt i reolaeth Cymru'n Gweithio, roedd staff a rhanddeiliaid o'r farn bod diffyg darpariaeth ESOL yn her ehangach ledled Cymru am fod anghenion cwsmeriaid yn aml yn gymhleth, am fod mwy o alw am y gwasanaethau nag y gellir ei ddarparu ac am nad oes ganddynt adnoddau digonol yn sgil cyfyngiadau ariannol. Lle bo'n bosibl, dylai darpariaeth yn y dyfodol ystyried a allai Cymru'n Gweithio neu wasanaethau cysylltiedig eraill gynnig cymorth ESOL dwys wedi'i deilwra, a sut.

[44] Mae rhagor o wybodaeth am raglen STEP Ukraine ar gael fan yma: Llywodraeth y DU (2023) Learn to Speak, Read and Write English: Homes for Ukraine.

## 5. Casgliadau

5.0 Rhwng Chwefror 2019 a Mawrth 2023, ymgysylltodd 1,250 o ffoaduriaid a mudwyr[45] â rhaglen Cymru'n Gweithio, sef un y cant o gyfanswm carfan Cymru'n Gweithio. Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol a archwiliwyd yn yr adroddiad ac yn mynd i'r afael â chwestiynau ymchwil allweddol a amlinellwyd yn Adran 1.

5.1 O ganlyniad i'r argyfwng yn Wcráin ym mis Chwefror 2022, roedd cynnydd yn nifer yr mudwyr gorfodol o Wcráin a ddaeth i mewn i Gymru. Mewn ymateb i'r galw cynyddol, datblygodd Cymru'n Gweithio gynnig cymorth i ffoaduriaid a mudwyr i sicrhau bod mudwyr gorfodol o Wcráin a ffoaduriaid a mudwyr eraill yn cael cyngor gyrfaoedd cywir o ansawdd uchel pan fo'n briodol.

5.2 Mae'n bwysig nodi'r ffaith bod y gwasanaeth mae Cymru'n Gweithio yn ei gynnig i ffoaduriaid a mudwyr yn atodol i gynnig cyffredinol craidd Cymru'n Gweithio sydd ar gael i drigolion 16 oed neu hŷn ledled Cymru.[46] Ar draws y cyfweliadau, roedd y staff a'r rhanddeiliaid yn canmol gallu'r gwasanaeth i ymateb yn gyflym ac addasu gwasanaethau i sicrhau bod y cymorth yn hygyrch i ffoaduriaid a mudwyr. Cyfeiriodd staff at ymateb yn gyflym i ddarparu cynnig newydd oherwydd yr anghenion a ddaeth i'r amlwg ymhlith y ffoaduriaid a'r mudwyr a oedd yn dod i mewn i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys elfennau newydd o gymorth yn cael eu cynnig, e.e. ESOL, a phartneriaethau newydd i gynorthwyo cwsmeriaid yn effeithiol. Dylid canmol a chymeradwyo gallu'r gwasanaeth i weithredu cynnig gwasanaeth newydd yn gyflym ac yn hyblyg.

5.3 Cyfrifwyd cyfanswm nifer y ffoaduriaid a'r mudwyr gan ddefnyddio gwybodaeth monitro ar lefel rhaglen. Mae'n seiliedig ar gyfanswm nifer y cwsmeriaid y nodwyd eu bod yn ffoaduriaid a mudwyr, a chwsmeriaid heb unrhyw ddosbarthiad ond a gyfeiriwyd trwy wasanaeth arbenigol sydd ond yn cefnogi ffoaduriaid a/neu fudwyr. Er bod hyn yn rhoi amcangyfrif o nifer y ffoaduriaid a'r mudwyr a gyrhaeddwyd, byddai manylion ychwanegol ar lefel unigol yn cefnogi ymdrechion i asesu pa mor effeithiol y mae Cymru'n Gweithio yn cyrraedd ac yn cynorthwyo ffoaduriaid a

[45] Oherwydd bod data ar goll, mae'n debygol bod cyfanswm y ffoaduriaid a'r mudwyr a gafodd gymorth yn uwch.
[46] Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae hyn yn cynnwys cwsmeriaid 15 oed a fydd yn troi yn 16 yn yr un flwyddyn academaidd.

mudwyr. Er y gwnaed cryn ymdrech i ôl-ddyddio gwybodaeth lle’r oedd ar gael, o ystyried y newidiadau a’r ychwanegiadau a roddwyd ar waith ar ôl mis Hydref 2022, mae’n debygol bod y ffigurau hyn yn tanamcangyfrif cyfanswm y ffoaduriaid a’r mudwyr a gynorthwywyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2022. Mae tîm Cymru'n Gweithio wedi gwneud ymdrechion i sicrhau y gellir casglu data manylach am y garfan hon er mwyn diwallu anghenion unigol yn effeithiol.

5.4 Mae dull 'un tîm' Cymru'n Gweithio, sy'n seiliedig ar hyblygrwydd, mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a chymorth cyflogadwyedd, gan gynnwys cymorth wrth chwilio ac ymgeisio am swyddi, i ffoaduriaid a mudwyr sy'n dod i mewn i Gymru. Mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa dda oherwydd ei allu i addasu ar sail ar angen, a'i ymrwymiad i ymgysylltu â phartneriaid arbenigol. Dros amser, roedd Cymru’n Gweithio hefyd yn gallu datblygu’r cymorth y mae’n ei gynnig i ffoaduriaid a mudwyr, gan gynnwys mynediad at ddarpariaeth ESOL, cyngor arbenigol gan hyrwyddwr ffoaduriaid a mudwyr Cymru’n Gweithio, a darpariaeth Rhwydwaith Ewropeaidd o Ganolfannau Gwybodaeth. Mae’r ymrwymiad i gynnig cyffredinol Cymru’n Gweithio hefyd yn ceisio sicrhau bod ffoaduriaid a mudwyr yn cael cynnig parhad o ran cymorth waeth ble maent yn byw yng Nghymru.

5.5 Roedd staff o’r farn bod defnyddio safleoedd dros dro drwy gydleoli mewn Canolfannau Croeso i ffoaduriaid yn helpu i ddarparu cymorth cywir a hygyrch yn effeithiol. Ceir tystiolaeth o gydweithio effeithiol â phartneriaid yn y ffaith bod llwybrau atgyfeirio cyffredin yn cynnwys partneriaid fel y Ganolfan Byd Gwaith. Roedd rhanddeiliaid a staff hefyd yn cydnabod effeithiolrwydd cydweithredu ar draws safleoedd o ran darparu cymorth cofleidiol i gwsmeriaid sy’n ychwanegu gwerth at y cymorth, yn ychwanegol at y cymorth cyflogadwyedd arferol sy’n cael ei gynnig. Er bod hyn wedi rhoi mynediad i amrywiaeth o sefydliadau i gwsmeriaid, mae'n bwysig nodi bod hyn hefyd wedi creu pwysau ar adnoddau Cymru'n Gweithio.

5.6 Gan gydnabod nad cyngor ac arweiniad gyrfaoedd o reidrwydd yw'r elfen gyntaf sydd ei hangen ar ffoaduriaid a mudwyr wrth iddynt gyrraedd Cymru, roedd y rhanddeiliaid yn canmol y modd yr oedd Cymru'n Gweithio yn cydweithio â gwasanaethau eraill. Yn benodol, cyfeiriodd rhanddeiliaid at gydweithrediad

Cymru'n Gweithio â gwasanaethau eraill ar ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ffoaduriaid a mudwyr. Teimlwyd bod hyn yn effeithiol, gan ei fod yn hysbysu unigolion am y cymorth ehangach sydd ar gael iddynt, ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol mai Cymru'n Gweithio oedd y gwasanaeth priodol i droi ato i drosi cymwysterau a chyngor gyrfaoedd.

5.7 Gan ystyried hygyrchedd y gwasanaeth i ffoaduriaid a mudwyr, roedd staff Cymru'n Gweithio yn gallu darparu ystod o enghreifftiau a oedd yn dangos yr ymdrechion a wnaed i sicrhau bod y gwasanaeth yn gynhwysol. Er enghraifft, mae Cymru'n Gweithio yn darparu taflenni gwybodaeth wedi'u cyfieithu i 28 o ieithoedd a 'Llinell Iaith' i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i unrhyw gwsmer sydd ei angen. Mae hyn yn sicrhau y gellir diwallu anghenion iaith uniongyrchol cwsmeriaid.

5.8 Mae cymorth i ffoaduriaid a mudwyr yn cael ei arwain yn aml gan 'hyrwyddwyr' arbenigol oddi mewn i dîm Cymru'n Gweithio i ddarparu ar gyfer angen penodol a allai fod yn wahanol i'r cynnig cyffredinol. Lle'r oedd cymorth yn seiliedig ar wybodaeth arbenigol, roedd ffoaduriaid a mudwyr yn gallu elwa ar ddealltwriaeth fanwl staff o wahanol statws cyfreithiol, gofynion fisa a hawl i weithio. Roedd staff hefyd yn gallu darparu gwybodaeth am ddiwylliant gweithio a'r gweithle yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth i sicrhau bod cwsmeriaid yn deall eu hawliau fel gweithwyr e.e. isafswm cyflog a hawl i gontract cyflogaeth, yn ogystal â gwahaniaethau sectoraidd a disgwyliadau gweithwyr.

5.9 Er bod amrywiaeth o dimau arbenigol ym maes ffoaduriaid a mudwyr ar draws Cymru'n Gweithio, caiff ei awgrymu'n aml bod y timau hyn fel arfer yn byw mewn canolfannau trefol. Mewn achosion lle mae ffoaduriaid a mudwyr wedi'u lleoli mewn ardaloedd mwy gwledig, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai staff fod yn llai hyddysg yn y wybodaeth ofynnol sydd ei hangen ar gwsmeriaid. Mae hyn wedi arwain at ganfyddiadau bod rhai cwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn cael cyngor mwy 'cyffredinol' i ddechrau yn hytrach na chyngor arbenigol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod cynghorwyr, lle bo'n bosibl, wedi addasu eu setiau sgiliau ac wedi ceisio cynorthwyo ystod eang o anghenion cwsmeriaid.

5.10 Ar y cyfan, roedd cwsmeriaid yn gadarnhaol am eu profiad o Cymru'n Gweithio. Yn benodol, roeddent yn awgrymu bod y gwasanaeth hwn wedi helpu eu dealltwriaeth

o’r cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael iddynt a’r camau sydd eu hangen i ddechrau ar eu taith i gyflogaeth. Roedd cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr hefyd yn ei chael hi'n ddefnyddiol ymgysylltu ag unigolion penodol i gael cymorth wedi'i gyfeirio at ffoaduriaid a mudwyr, yn hytrach na chymorth mwy cyffredinol fel derbyn hysbysebion swyddi heb unrhyw ryngweithio.

5.11 Roedd adborth cwsmeriaid ar yr elfen wyneb yn wyneb o gymorth Cymru’n Gweithio yn gadarnhaol. Yn aml, roedd cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn nodi bod y cymorth hwn yn rhywbeth a oedd yn caniatáu iddynt ymarfer sgwrsio yn Saesneg. Roedd nifer o gwsmeriaid hefyd yn canmol yr amser a gymerwyd i drafod cryfderau neu fylchau o ran sgiliau a gwybodaeth wyneb yn wyneb. Dywedodd cwsmeriaid fod hyn yn sicrhau eu bod wedyn yn cael cymorth wedi'i dargedu a oedd yn berthnasol i'w hanghenion. Roedd staff hefyd yn nodi ei bod yn haws goresgyn rhwystrau iaith wyneb yn wyneb. Roedd staff hefyd o'r farn bod cymorth wyneb yn wyneb yn fwy hygyrch i rai cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr â gallu technegol isel neu ddiffyg offer sydd â mynediad i'r rhyngrwyd.

5.12 Fodd bynnag, cyfeiriodd cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr hefyd at nifer o rwystrau y maent wedi'u hwynebu wrth geisio cael gwaith a pharhau mewn gwaith yng Nghymru. Er bod Cymru’n Gweithio yn darparu mynediad i gymorth iaith a chyfieithiadau o gymwysterau yn effeithiol, cyfeiriodd cwsmeriaid at anawsterau wrth gael gafael ar y cymorth hwn oherwydd ymrwymiadau gwaith a chyfrifoldebau gofal plant. Er ei fod y tu hwnt i reolaeth Cymru’n Gweithio, roedd pryderon ynghylch y ffaith ei bod yn anodd cael gafael ar ddarpariaeth ESOL hefyd yn codi’n aml mad nad oedd digon o leoedd ar y cyrsiau i ateb y galw ac am fod llawer o gyrsiau’n cael eu gohirio yn ystod misoedd yr haf, am fod y colegau ar gau.

5.13 Caiff ei gydnabod bod rhai rolau, yn enwedig rhai mewn lleoliadau meddygol, yn anoddach i ffoaduriaid a mudwyr sy’n dod i mewn i’r wlad gael eu penodi iddynt. At hynny, mewn rhai achosion, nid yw'n bosibl i ffoaduriaid a mudwyr gael gwaith yn hawdd yn eu dewis broffesiwn. Mae’r rhesymau am hyn yn cynnwys gallu cyfyngedig yn yr iaith Saesneg, diffyg swyddi ar gael, lleoliad a/neu opsiynau cymhleth o ran cyfieithu cymwysterau. Er bod llawer o resymau pam na all cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr gael eu penodi i rôl benodol y tu hwnt i

reolaeth staff Cymru'n Gweithio, roedd staff a rhanddeiliaid yn aml yn pwysleisio pwysigrwydd pennu disgwyliadau gyda chwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr. Yn ôl y disgwyl, mae’r arfer o bennu disgwyliadau yn amrywio, fel y dylai, yn dibynnu ar amgylchiadau cwsmer unigol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod dulliau o osod disgwyliadau yn amrywio ymhlith aelodau staff. Yn ogystal â hyn, mae adborth cwsmeriaid a gyfwelwyd yn dangos bod rhai cwsmeriaid yn teimlo nad oeddent wedi gallu dod o hyd i waith drwy Cymru'n Gweithio a oedd yn adlewyrchu eu sgiliau. Mae hyn yn awgrymu y dylid adolygu dulliau pennu disgwyliadau i sicrhau bod dulliau’r staff yn gyson ac yn glir i gwsmeriaid. Bydd hyn yn sicrhau bod cylch gwaith y gwasanaeth yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol ac yn cael ei ddeall.

## 6. Argymhellion

6.1 O ganlyniad i’r gwerthusiad, mae’r argymhellion canlynol wedi’u nodi i gynorthwyo a gwella’r gwaith o gyflawni Cymru’n Gweithio yn y dyfodol mewn perthynas â chymorth i ffoaduriaid a mudwyr:

6.2 **Argymhelliad 1:** Dylid adolygu a ellid gwella'r broses o gasglu data Cymru'n Gweithio ar fudo ymhellach er mwyn dal ymgysylltiad ffoaduriaid a mudwyr â'r gwasanaeth. Mae ymdrechion sylweddol wedi’u gwneud i wella’r broses o gasglu data ar fudo ers mis Hydref 2022. Fodd bynnag, er bod ethnigrwydd a gwlad gartref yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd, nid yw cenedligrwydd yn cael ei gofnodi. Deellir bod yr agwedd hon ar gasglu data yn sensitif, fodd bynnag, efallai nad gwlad gartref unigolyn yw'r wlad y mae’n ddinesydd ohoni ac nid yw ethnigrwydd yn dynodi cenedligrwydd. Dylai’r adolygiad hwn o drefniadau casglu data hefyd archwilio sut mae cenedligrwydd yn cael ei ddiffinio i sicrhau bod y data sy’n cael ei gasglu am fudo yn gywir ac yn adlewyrchu arferion da ehangach[47].

6.3 **Argymhelliad 2:** Fel a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022), mae casglu data cryf yn hanfodol i ddeall profiadau a chanlyniadau ar gyfer grwpiau. Er mwyn sicrhau y gall Cymru’n Gweithio nodi’n effeithiol ac yn gywir nifer y ffoaduriaid a’r mudwyr sy’n defnyddio’r gwasanaeth ac felly adeiladu darlun cryfach o’u profiadau, dylai staff bwysleisio mor bwysig yw bod cwsmeriaid yn rhannu eu manylion demograffig wrth gofrestru, yn enwedig eu gwlad wreiddiol ac iaith y cartref. Byddai hyn yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu categoreiddio'n gywir ac yn gyson mewn data lefel rhaglen.

6.4 **Argymhelliad 3:** Mae cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr yn cyfrif am gyfran fach o gyfanswm cwsmeriaid Cymru’n Gweithio, ac o ganlyniad y mae i’w ddisgwyl y bydd gwybodaeth staff am anghenion cymorth cymhleth cymunedau o ffoaduriaid a mudwyr yn amrywio. Fodd bynnag, lle bo modd, dylid gwella deialog ac arferion rhannu gwybodaeth rhwng hyrwyddwyr ffoaduriaid a staff eraill Cymru’n Gweithio er mwyn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir yn gyson ar draws y gwasanaeth a bod bylchau mewn gwybodaeth yn cael eu nodi.

[47] Awgrymir y gallai'r diffiniad hwn gyd-fynd â dulliau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o fesur mudo rhyngwladol.

6.5 **Argymhelliad 4:** Mae’r ffaith bod hyrwyddwyr ffoaduriaid a mudwyr wedi’u creu ymhlith staff i rannu cymorth a gwybodaeth yn cael ei werthfawrogi'n eang ac mae angen hyn er mwyn diwallu anghenion cymhleth ymhlith cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr. Dylid cadw’r model cyflawni hwn wrth symud ymlaen. Fel yr amlygwyd ym mharagraff 6.4 uchod, dylai darpariaeth yn y dyfodol ystyried a allai hyrwyddwyr ledaenu gwybodaeth yn well a sut y gellid gwneud hynny. Lle nad yw hyn yn ymarferol, dylid nodi hyrwyddwyr ychwanegol fel bod hyrwyddwyr 'trefol' a 'gwledig' ym mhob tîm rhanbarthol.

6.6 **Argymhelliad 5:** Roedd cymorth wyneb yn wyneb yn cael ei ganmol am ei natur fanwl a'r cyfle yr oedd yn ei roi i gwsmeriaid ymarfer sgwrsio yn Saesneg. Fodd bynnag, roedd cymorth wyneb yn wyneb hefyd wedi arwain at bwysau amser ac ariannol ychwanegol i gwsmeriaid. Er ei bod yn angenrheidiol i rai cwsmeriaid gael nifer o gyfarfodydd wyneb yn wyneb â staff Cymru’n Gweithio, dylai staff adolygu a ellid lleihau nifer y sesiynau wyneb yn wyneb i liniaru heriau cysylltiedig.

6.7 **Argymhelliad 6:** Dylai darpariaeth Cymru’n Gweithio yn y Dyfodol sicrhau bod dulliau staff o bennu disgwyliadau yn gyson, eu bod yn cael eu hadolygu’n rheolaidd a’u bod yn glir, er enghraifft, i egluro cyfyngiadau o ran i ba raddau mae rolau ar gael, sgiliau iaith a lleoliad.

6.8 **Argymhelliad 7:** Byddai'n fuddiol edrych ar ddulliau er mwyn i'r tîm cyflawni fod yn cynrychioli'r garfan amrywiol o gwsmeriaid. Er enghraifft, galluogi mudwyr a ffoaduriaid sydd wedi ymgysylltu â’r cymorth, i weithredu fel hyrwyddwyr neu eiriolwyr oddi mewn i’r cymorth sy’n cael ei gynnig neu wella ymwybyddiaeth staff o gynrychiolaeth ddiwylliannol ymhellach trwy gynnwys pynciau sy’n ddiwylliannol berthnasol mewn hyfforddiant.

6.9 **Argymhelliad 8:** Annog cyflogwyr i edrych y tu hwnt i rwystrau iaith sy’n gysylltiedig â gwaith er mwyn gwireddu manteision cyflogi ffoaduriaid a mudwyr yn y gweithle. Er y dylai datblygu sgiliau Saesneg barhau i fod yn flaenoriaeth, byddai mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith a lleoliadau gwaith yn ehangu'r cyfleoedd i gwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr ddatblygu eu sgiliau iaith a chaniatáu i gyflogwyr ddeall cyfraniad cadarnhaol posibl ffoaduriaid a mudwyr yn well. Oddi mewn i hyn, gallai Cymru’n Gweithio, neu wasanaethau eraill fel Busnes Cymru, nodi cyflogwyr

neu rolau ledled Cymru, er enghraifft trwy gyfeiriadur, nad oes angen lefelau uchel o Saesneg arnynt, neu sy'n cynnig rolau sy'n drosglwyddadwy rhwng safleoedd, i liniaru pryderon ynghylch adsefydlu.

## 7. Cyfeiriadau


Amnest Rhyngwladol (2020) Refugees, Asylum Seekers and Migrants, Amnest Rhyngwladol (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

Bryman, A. (1998) Quantity and Quality in Social Research. Llundain: Routledge (cyrchwyd: 18 Mawrth 2024).

Charmaz, K. (2000) Grounded Theory: Objectivist and Constructivist Methods, yn N.K. Denzin ac Y.S. Lincoln (gol.) Handbook of Qualitative Research 2nd Edition (cyrchwyd: 18 Mawrth 2024).

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Cyngor Ffoaduriaid Cymru (dim dyddiad) 'What We Do' (cyrchwyd: 21 Tachwedd 2023).

Cymru'n Gweithio (dim dyddiad) Cymunedau am Waith a Mwy (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

GIG Cymru (2020) Cymorth i feddygon sy'n ffoaduriaid drwy WARD, AaGIC (cyrchwyd: 21 Tachwedd 2023).

Holtom, D. ac Iqbal, H. (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth Rhif 20/2020 (cyrchwyd: 21 Tachwedd 2023).

Holtom, D., Burrowes, E. a Bryer, N. (2023) Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Cam 1 (Gwerthusiad proses a theori newid) (cyrchwyd: 23 Tachwedd 2023).

Llywodraeth Cymru (2019) Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches (cyrchwyd: 26 Chwefror 2024).

Llywodraeth Cymru (2020) AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid, Cyfleoedd Ymgysylltu â Chyflogwyr (crynodeb) (cyrchwyd: 26 Chwefror 2024).

Llywodraeth Cymru (2022a) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (2022b) Demograffeg a mudo yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) (cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2023).

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) 'AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid - Cynyddu Cyfleoedd Datblygu Sgiliau Cyflogadwyedd i Ffoaduriaid yng Nghymru' (cyrchwyd: 21 Tachwedd 2023).

Llywodraeth y DU (2023a) Learn to speak, read and write English: Homes for Ukraine, GOV.UK (cyrchwyd: 26 Chwefror 2024).

Llywodraeth y DU (2023b) Permission to work and volunteering for asylum seekers (accessible), GOV.UK (cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2023).

REACH+ (2023) What is REACH? (cyrchwyd: 21 Tachwedd 2023).

Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (2021) Global Trends Report 2021, Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2023).

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2023) What are the integration challenges of Ukrainian refugee women?, Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2023).

Y Swyddfa Gartref a Fisâu a Mewnfudo y DU (2023) Ukraine Family Scheme, Ukraine Sponsorship Scheme (Homes for Ukraine) and Ukraine Extension Scheme visa data, GOV.UK (cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2023).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). Guidance on using country of birth, nationality, and passports held data (cyrchwyd: 18 Mawrth 2024).

Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2023a) Ukraine Family Scheme, Ukraine Sponsorship Scheme (Homes for Ukraine) and Ukraine Extension Scheme visa data, GOV.UK (cyrchwyd: 22 Rhagfyr 2023).

Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2023b) Ukraine Sponsorship Scheme: Visa data by country, upper and lower tier local authority, GOV.UK (cyrchwyd: 21 Tachwedd 2023).

## Atodiad Un: Offer Ymchwil

**Canllaw pwnc grŵp ffocws cwsmeriaid sy’n ffoaduriaid ac yn fudwyr**

1. Ble cawsoch chi wybod am y cymorth gan Cymru’n Gweithio?
2. Pan wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf, pa gymorth oeddech chi'n gobeithio y byddech chi'n ei gael?
3. Sut wnaethoch chi gael mynediad at y gwasanaeth am y tro cyntaf? Er enghraifft, a wnaethoch chi fynd ar-lein, galw heibio i’r gwasanaeth, neu drefnu apwyntiad?
4. A yw’r gwasanaeth wedi gallu darparu’r cymorth cyflogadwyedd yr oeddech ei eisiau, neu wedi eich rhoi mewn cyswllt â sefydliadau eraill a all ddarparu’r cymorth hwnnw?
5. Os ydych chi wedi cael cymorth, naill ai gan Cymru’n Gweithio, neu wedi eich cyfeirio at wasanaethau eraill, a wnaeth y cymorth hwn fodloni eich disgwyliadau?
    - Pa wasanaethau wnaethoch chi eu defnyddio, a pha gymorth a ddarparwyd ganddyn nhw?
6. Os ydych chi wedi cael cymorth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), beth oedd eich profiad o hyn?
    - A oedd y cymorth hwn yn hawdd cael gafael arno?
    - A oes modd gwella'r cymorth hwn mewn unrhyw ffordd?
7. A oes modd gwneud unrhyw welliannau i Cymru’n Gweithio i’ch cynorthwyo’n well ar eich taith cyflogadwyedd?
8. A ydych chi wedi defnyddio gwasanaethau Cymru’n Gweithio o bell? Mae hyn yn cynnwys tudalennau hunangymorth ar y wefan, cyfleuster sgwrsio ar-lein, cymorth e-bost a ffôn.
9. Os felly, pa wasanaethau wnaethoch chi eu defnyddio a beth oedd eich barn am y gwasanaethau hyn?
    - A oes modd eu gwella mewn unrhyw ffordd?

**Arolwg ar-lein o Gwsmeriaid sy’n Ffoaduriaid ac yn Fudwyr**

Ydych chi'n hapus i barhau â'r arolwg?

- Ydw
- Nac Ydw

C3 Ble cawsoch chi wybod am y cymorth gan Cymru’n Gweithio?

C4 Pan wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf, pa gymorth oeddech chi'n gobeithio y byddech chi'n ei gael?

C5 Sut wnaethoch chi gael mynediad at y gwasanaeth am y tro cyntaf? Er enghraifft, a wnaethoch chi fynd ar-lein, galw heibio i’r gwasanaeth, neu drefnu apwyntiad?

C6 A yw’r gwasanaeth wedi gallu darparu’r cymorth cyflogadwyedd yr oeddech ei eisiau, neu wedi eich rhoi mewn cyswllt â sefydliadau eraill a all ddarparu’r cymorth hwnnw?

- Ydy
- Nac ydy

C7 Ydych chi wedi cael cymorth, naill ai gan Cymru’n Gweithio, neu wedi eich cyfeirio at wasanaethau eraill, a wnaeth y cymorth hwn fodloni eich disgwyliadau?

C8 Pa wasanaethau wnaethoch chi eu defnyddio, a pha gymorth a ddarparwyd ganddyn nhw?

C9 Ydych chi wedi cael cymorth Saesneg fel ail iaith?

- Ydw
- Nac ydw

C10 Disgrifiwch eich profiad o gael mynediad i gymorth Saesneg fel ail iaith  e.e. a oedd yn hawdd cael gafael arno, a oes modd ei wella mewn unrhyw ffordd?

C11 A oes modd gwella Cymru'n Gweithio mewn unrhyw ffordd?

- Oes
- Nac oes

C12 Sut y gellid gwella Cymru’n Gweithio i’ch cynorthwyo’n well ar eich taith cyflogadwyedd?

C13 Pa wasanaethau Cymru'n Gweithio ydych chi wedi'u defnyddio?

C14 Beth yw eich barn am y gwasanaethau Cymru'n Gweithio rydych chi wedi’u defnyddio?

C15 A oes modd gwella'r gwasanaethau Cymru'n Gweithio hyn mewn unrhyw ffordd?

C16 A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am Cymru'n Gweithio?

C17 Rhowch eich cyfeiriad e-bost fan yma os hoffech dderbyn taleb Amazon gwerth £10.

## Cyfweliadau â staff rheoli a chyflawni

### Cyflwyniad

1. A allech chi ddweud ychydig wrthyf am eich rôl?

### Model cyflawni

2. A allech ddweud ychydig wrthyf am sut y caiff gwasanaeth Cymru’n Gweithio ei gyflawni yn eich ardal chi?
3. Beth yw'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y dewis o leoliadau allgymorth yn eich ardal?
4. Pa lefel o ymgysylltu ydych chi'n tueddu i'w gweld o fewn lleoliadau allgymorth, a sut mae hyn yn amrywio ar draws lleoliadau?
5. Sut, os o gwbl, y mae eich dulliau allgymorth wedi newid ers cyn pandemig COVID-19?
6. A yw lefelau ymgysylltiad â lleoliadau allgymorth wedi newid ers cyn pandemig COVID-19?
7. Pa mor effeithiol yw’r lleoliadau allgymorth presennol ar gyfer darparu gwasanaeth Cymru’n Gweithio?
8. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y lleoliadau presennol yn eich rhanbarth yn hawdd i gwsmeriaid eu cyrraedd? Eglurwch eich ateb.
9. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr amgylchedd(au) yn groesawgar? A oes unrhyw beth y gellid ei wneud i wneud y lleoliadau yn fwy croesawgar?

### Cydleoli a Gweithio mewn Partneriaeth

10. Pa bartneriaid, os o gwbl, ydych chi'n gweithio gyda nhw yn eich ardal i gydleoli gwasanaethau?
11. Beth ddylanwadodd ar y penderfyniadau i gydleoli gyda'r partneriaid hyn?
12. A oes unrhyw bartneriaid lle credwch fod cydleoli wedi bod yn arbennig o werthfawr i gwsmeriaid neu i wasanaeth Cymru’n Gweithio, naill ai o ran lefel yr ymgysylltu neu’r garfan o gwsmeriaid rydych chi wedi gallu eu cyrraedd? Os felly, sut mae hyn wedi bod yn fuddiol?

13. A oes unrhyw bartneriaid lle credwch fod cydleoli wedi bod yn llai buddiol i gwsmeriaid neu wasanaeth Cymru’n Gweithio, neu wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol? Os felly, sut mae hyn wedi bod yn llai buddiol?
14. O'ch safbwynt chi, beth sy'n gweithio'n dda o ran y model cyflawni cyffredinol yn eich ardal chi?
15. A oes unrhyw beth sydd ddim yn gweithio neu sydd wedi bod yn heriol?

**Cyrhaeddiad y Gwasanaeth ac Ymgysylltiad**

16. Pa weithgareddau ydych chi'n eu darparu i ymgysylltu â chwsmeriaid a chodi ymwybyddiaeth o wasanaeth Cymru'n Gweithio?
17. Pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau hyn o ran codi ymwybyddiaeth a chyrraedd cwsmeriaid?
    *A yw hyn yn wahanol ar gyfer grwpiau gwahanol sy'n defnyddio Cymru'n Gweithio e.e. pobl ifanc?*
18. Hyd y gwyddoch, a oes unrhyw gymunedau sydd wedi bod yn anoddach eu cyrraedd neu nad ydynt yn ymgysylltu â’r ddarpariaeth?
    *Gallai hyn gynnwys cymunedau daearyddol neu grwpiau demograffig.*
19. A ydych chi’n cynnal unrhyw weithgareddau wedi’u targedu ar hyn o bryd i hwyluso ymgysylltiad gan y grwpiau neu’r ardaloedd hyn? Os felly, disgrifiwch.
20. Beth arall ydych chi'n meddwl y gellid ei wneud i hybu ymgysylltiad y cymunedau neu'r ardaloedd hyn yn well?

**Atgyfeiriadau a mynediad i wasanaethau**

21. A fu unrhyw newidiadau i’r gwasanaethau neu’r partneriaid rydych chi fel arfer yn cyfeirio atyn nhw o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf? Os do, pa anghenion y cleientiaid y mae'r cymorth hwn yn ei diwallu?
22. A oes unrhyw fylchau yn y cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael yn lleol i ddiwallu anghenion cwsmeriaid Cymru’n Gweithio?
23. A all asiantaethau neu bartneriaid lleol eraill ddiwallu'r anghenion hyn?

**Cyd-destun economaidd a chymdeithasol cyfnewidiol**

24. Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw proffil unigolion sy’n dod i gyswllt â gwasanaeth Cymru’n Gweithio i gael cymorth wedi newid, neu a yw’r anghenion cymorth y mae

unigolion yn eu cyflwyno wedi newid o ganlyniad i’r newid yn yr amgylchiadau economaidd?

25. A oes unrhyw addasiadau pellach y teimlwch fod angen i'r gwasanaeth eu gwneud i ymateb i anghenion newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg ymhlith cwsmeriaid?
26. A allai unrhyw rai o'r anghenion hyn gael eu diwallu gan ddarpariaeth arall sy'n bodoli?

**Cymorth i ffoaduriaid a mudwyr**

27. Beth yw'r prif anghenion cymorth y mae ffoaduriaid a mudwyr yn eu cyflwyno i'r gwasanaeth?
28. Pa gymorth sydd ar gael yn eich ardal leol i ymateb i’r anghenion hyn (o fewn Cymru’n Gweithio a thrwy sefydliadau partner, ac asiantaethau eraill)?
29. Hyd y gwyddoch, a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth neu’r cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael i ffoaduriaid a mudwyr gorfodol yn eich ardal nad ydynt yn cael eu llenwi ar hyn o bryd gan wasanaeth Cymru’n Gweithio neu bartneriaid/gwasanaethau lleol priodol?

**Dull Cymru Gyfan**

30. Cynlluniwyd Cymru’n Gweithio i ddarparu pwynt mynediad Cymru gyfan i gymorth cyflogadwyedd fel rhan o ddull “un tîm”. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y weledigaeth hon wedi'i gwireddu?
31. Beth ydych chi'n teimlo yw prif gryfderau'r dull hwn?
32. Pa mor bwysig yw’r rolau eraill y mae Cymru’n Gweithio yn eu chwarae (y tu hwnt i ddarparu pwynt mynediad i gymorth cyflogadwyedd) yn eich ardal?
33. A ellid gwneud mwy i gyflawni’r uchelgais o fod yn bwynt mynediad i bawb yng Nghymru?
34. A oes unrhyw ddarpariaeth cyflogadwyedd yn eich ardal leol nad oes mynediad iddi drwy Cymru’n Gweithio? Os felly, beth yw effaith hyn ar y gwasanaeth a'r cwsmeriaid?
35. A oes unrhyw beth arall sydd wedi effeithio ar ymagwedd Cymru gyfan at ddarpariaeth cyflogadwyedd?

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid**

**Cyflwyniad**

1. A allech ddweud ychydig wrthyf i am eich rôl a sut rydych chi wedi rhyngweithio â Cymru'n Gweithio?

**Dull Cymru Gyfan**

Cynlluniwyd Cymru'n Gweithio i ddarparu pwynt mynediad Cymru gyfan i gymorth cyflogadwyedd fel rhan o ddull "un tîm".

2. Beth ydych chi'n teimlo yw prif gryfderau dull Cymru'n Gweithio?
3. Pa mor bwysig yw'r rolau eraill y mae Cymru'n Gweithio yn eu chwarae (y tu hwnt i ddarparu pwynt mynediad i gymorth cyflogadwyedd) yn eich ardal?
4. Pa elfennau o'r gwasanaeth sydd bwysicaf a pham?
5. A ellid gwneud mwy i gyflawni'r uchelgais o fod yn bwynt mynediad i bawb yng Nghymru?
6. Wrth symud ymlaen, pa gyfleoedd sydd ar gael i'r gwasanaeth hybu dull Cymru gyfan o ymdrin â chyflogadwyedd?
7. Yn ystod y 12 mis diwethaf, a yw proffil unigolion a allai elwa ar ryngweithio â gwasanaeth Cymru'n Gweithi wedi newid o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, neu a yw anghenion cymorth unigolion wedi newid?
8. Sut y gallai fod angen i wasanaeth Cymru'n Gweithio addasu i ymateb i'r newidiadau hyn?
9. A oes unrhyw fygythiadau i effeithiolrwydd Cymru'n Gweithio sydd wedi dod i'r amlwg ers dylunio'r gwasanaeth?

**Model cyflawni – lleoliadau a phartneriaethau**

10. Ar hyn o bryd mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cael ei ddarparu o bell ac wyneb yn wyneb ar draws ystod o leoliadau, gyda rhai safleoedd / lleoliadau untro wedi'u cydleoli ochr yn ochr â darpariaeth neu wasanaethau eraill. A oes gennych unrhyw farn ar y lleoliadau presennol/safleoedd untro sy'n cael eu defnyddio yn eich ardal?

11. A oes unrhyw bartneriaid lle credwch fod cydleoli wedi bod yn arbennig o werthfawr i gwsmeriaid neu i wasanaeth Cymru'n Gweithio? Os felly, sut mae hyn wedi bod yn fuddiol?
12. A oes unrhyw bartneriaid lle credwch fod cydleoli wedi bod yn llai buddiol i gwsmeriaid neu i wasanaeth Cymru'n Gweithio? Os felly, sut mae hyn wedi bod yn llai buddiol?
13. Beth yw eich safbwyntiau ar gynnig o bell presennol Cymru'n Gweithio?

**Model cyflawni – Ymgysylltu, Cynhwysiant, a Hygyrchedd y cymorth**

14. O'ch safbwynt chi, a yw Cymru'n Gweithio yn cyrraedd y rhai a fyddai'n elwa o ryngweithio â gwasanaeth Cymru'n Gweithio?
15. Os nad yw, pa gymunedau neu grwpiau nad ydynt yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd? Gallai hyn gynnwys cymunedau daearyddol neu grwpiau demograffig.
16. A oes unrhyw ffactorau a all fod yn effeithio ar ymgysylltu â'r cymunedau hyn? Beth allai Cymru'n Gweithio ei wneud i gyrraedd y cymunedau hyn yn well?
17. A oes unrhyw beth y credwch y gallai'r gwasanaeth ei wneud i wella'r ymgysylltiad a pha mor hygyrch yw'r cymorth ymhlith unigolion o gefndiroedd Du ac ethnig leiafrifol?
18. A oes unrhyw beth y credwch y gallai'r gwasanaeth ei wneud i wella'r ymgysylltiad a pha mor hygyrch yw'r cymorth ymhlith pobl anabl?

**Cymorth i ffoaduriaid a mudwyr**

19. O ran cyflogadwyedd, beth yw'r prif anghenion cymorth ar gyfer ffoaduriaid a mudwyr?
20. Pa gymorth sydd ar gael i ymateb i'r anghenion hyn (o fewn Cymru'n Gweithio a thrwy sefydliadau partner, ac asiantaethau eraill)?
21. Pa mor effeithiol y caiff yr anghenion hyn eu diwallu ar hyn o bryd?
22. Hyd y gwyddoch, a oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth cyflogadwyedd neu'r cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael i ffoaduriaid a mudwyr?

**Sylwadau i Gloi**

23. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu ynghylch Cymru'n Gweithio?

## Atodiad Dau: Hysbysiadau Preifatrwydd

**Gwerthusiad o raglen Cymru'n Gweithio – grwpiau ffocws gyda chwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr (Hawdd ei Ddarllen)**

*Beth yw hysbysiad preifatrwydd?*

Mae hysbysiad preifatrwydd yn dweud wrthych sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

*Beth yw Gwybodaeth Bersonol?*

Gall gwybodaeth bersonol fod yn llawer o bethau gwahanol fel eich

- Enw
- Rhif Ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Cyfeiriad
- Dyddiad geni

*Beth yw grŵp ffocws?*

Mae grŵp ffocws yn dod â phobl ynghyd i rannu eu profiadau.

Mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig.

Gallai helpu i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

*Trosolwg*

Mae Cymru'n Gweithio yn rhaglen i helpu pobl i ddod o hyd i waith yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Wavehill ddarganfod a yw rhaglen Cymru'n Gweithio yn gweithio'n dda, ac a oes unrhyw beth y gallai ei wneud yn well.

Mae Wavehill yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a bydd yn llunio adroddiad ar eu canfyddiadau.

Fel rhan o hyn, mae Wavehill eisiau siarad â ffoaduriaid a mudwyr sydd wedi defnyddio gwasanaeth Cymru'n Gweithio.

Mae Wavehill yn gofyn i bobl gymryd rhan mewn grŵp ffocws i rannu eu profiadau.

*Sut y gwnaethoch chi gael fy manylion?*

Dywedodd Gyrfa Cymru wrthych am y gwaith ymchwil hwn ac rydych chi naill ai wedi:

- Cytuno i'ch manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) gael eu rhannu â Wavehill er mwyn i chi gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn.

- Llenwi ffurflen ar-lein gan roi eich enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn fel y gallwn gysylltu â chi i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn.

Gwaith Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod eich data yn ddiogel.

*Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?*

Bydd Wavehill yn casglu eich gwybodaeth a byddwn yn:

- Rhannu'r canfyddiadau â Llywodraeth Cymru ond ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.
- Dileu unrhyw wybodaeth bersonol ar ôl uchafswm o 3 mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

*Oes rhaid i mi gymryd rhan?*

Eich dewis chi yw cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn a gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd.

*Defnyddio Recordiadau*

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio recordiadau fideo neu sain o drafodaethau'r grwpiau ffocws. Mae hyn yn ein helpu i nodi popeth sy'n cael ei drafod.

Dim ond os bydd pawb yn y grŵp yn cytuno y byddwn yn gwneud hyn. Nid oes rhaid i chi gytuno.

Os byddwch yn cytuno i ni recordio trafodaethau'r grŵp ffocws

- Byddwn yn gwneud recordiad o'ch delwedd nad yw'n bosibl eich adnabod ohono, os byddwch yn ymuno â grŵp ffocws ar-lein.
- Ni fyddwn yn casglu unrhyw ddata personol pellach oddi wrthych yn ystod sesiwn y grŵp ffocws.
- Byddwn yn dileu'r recordiadau unwaith y byddwn wedi gorffen llunio ein nodiadau.

Os na fyddwch yn cytuno i ni recordio'r grwpiau ffocws byddwn yn dal i wneud yn siŵr nad yw'n bosibl eich adnabod yn yr adroddiad.

*Sut alla i gael gwybod mwy?*

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data cliciwch ar y ddolen isod neu deipiwch y ddolen yn eich porwr gwe ar y rhyngrwyd.

*Â phwy y gallaf i gysylltu?*

Ynglŷn â'r ymchwil:

Endaf Griffiths, Wavehill

E-bost: Endaf.Griffiths@wavehill.com

Ynglŷn â defnyddio data:

Sean Homer, Llywodraeth Cymru

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Ynglŷn â diogelu data:

Ysgrifennwch at: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3N

E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Ysgrifennwch at: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: www.ico.org.uk

**Gwerthusiad o raglen Cymru'n Gweithio – grwpiau ffocws gyda chwsmeriaid sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymru'n Gweithio. Nod y gwerthusiad hwn yw asesu pa mor effeithiol y mae Cymru'n Gweithio'n cael ei chyflwyno, darparu gwersi i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol a gwerthuso'r effaith y mae Cymru'n Gweithio wedi'i chael ar gyfranogwyr.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth trwy grwpiau ffocws gyda ffoaduriaid ac ymfudwyr sydd wedi defnyddio darpariaeth Cymru'n Gweithio.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd Wavehill yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r grwpiau ffocws, ac yn gwneud y data crai yn ddienw, cyn iddo gael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Wavehill a Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Wavehill yw Endaf Griffiths.

Cyfeiriad e-bost: endaf.griffiths@wavehill.com

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol sydd gennym a ble rydym yn cael y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) fel ‘unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr’.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw eich manylion cyswllt. Mae Wavehill wedi cael eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) trwy un o’r llwybrau canlynol:

- Mae Gyrfa Cymru wedi rhoi eich manylion i Wavehill, gan eich bod wedi cytuno i'ch manylion cyswllt gael eu rhannu â Wavehill i gymryd rhan yn yr ymchwil; neu
- Mae Gyrfa Cymru wedi darparu dolen i ffurflen ar-lein lle gallwch roi eich manylion i Wavehill os ydych yn fodlon cymryd rhan yn yr ymchwil.

Dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd Wavehill yn defnyddio cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn.

Gwahoddir cyfranogwyr trwy e-bost i gymryd rhan mewn grŵp ffocws. Os na cheir ymateb, efallai y bydd Wavehill yn anfon e-bost atgoffa arall neu'n cysylltu â chyfranogwyr dros y ffôn. Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych yn dymuno cymryd rhan neu gael nodyn atgoffa yna atebwch yr e-bost gwahoddiad, neu rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r rhif ffôn a ddarparwyd, a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Nid yw'r ymchwil hwn yn gofyn am gasglu data personol ychwanegol gennych chi, ac eithrio ar gyfer eich delwedd os ydych yn cytuno i grŵp ffocws ar-lein gael ei recordio ar fideo.

Efallai y bydd angen i ni recordio grwpiau ffocws am resymau gweithredol (sain yn unig ar gyfer wyneb yn wyneb a fideo ar gyfer grwpiau ffocws ar-lein). Os mai dyma'r achos, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r grŵp ffocws ddechrau, a chewch gyfle i ddweud wrthym os nad ydych yn fodlon i'r drafodaeth gael ei chofnodi. Dim ond os yw holl aelodau'r grŵp yn fodlon i hyn ddigwydd y caiff grŵp ffocws ei gofnodi. Os bydd grwpiau ffocws yn cael eu cofnodi, bydd data personol yn cael ei ddileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd recordiadau'n cael eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na

chaiff trafodaethau eu cofnodi, ni fydd data personol yn cael ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu ar ôl y grŵp ffocws.

Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yna'n ei ddileu o ddata'r ymchwil.

**Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?**

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir ei gweithredu am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Gallai'r wybodaeth a gasglwyd yn yr ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i:

- Deall y theori y tu ôl i raglen Cymru'n Gweithio.
- Asesu perfformiad ac effaith y gwasanaeth.
- Datblygu argymhellion i wella darpariaeth Cymru'n Gweithio a rhaglenni cyflogadwyedd eraill.

**Pa mor ddiogel yw eich data personol?**

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Wavehill bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cyrchu'r data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Wavehill yn defnyddio'r data hwn. Mae gan Wavehill ardystiad hanfodion seiber.

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data. Os oes amheuaeth o dorri amodau, bydd Wavehill yn adrodd am hyn i Lywodraeth Cymru a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd Wavehill yn defnyddio’r wybodaeth a gasglwyd i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

**Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?**

Bydd Wavehill yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad yw wedi’i ddileu eisoes yn cael ei ddileu gan Wavehill o fewn tri mis i ddiwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

**Eich Hawliau fel Unigolyn**

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â’r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o’r gwerthusiad hwn, yn benodol mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- I ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu o'ch data (o dan rai amgylchiadau);
- Cael eich data ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau); a
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

**Gwybodaeth Bellach**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o’r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Sean Homer
Cyfeiriad E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.

**Gwerthusiad o raglen Cymru'n Gweithio - cyfweliadau â rheolwyr a chynghorwyr Cymru'n Gweithio**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymru'n Gweithio. Nod y gwerthusiad hwn yw asesu pa mor effeithiol y mae Cymru'n Gweithio yn cael ei chyflwyno i'r cynulleidfaoedd targed, er mwyn darparu gwersi i lywio darpariaeth yn y dyfodol, a gwerthuso'r effaith y mae Cymru'n Gweithio wedi'i chael ar gyfranogwyr o ran cyflogaeth, caffael a datblygu sgiliau, a lles.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth trwy gyfweliadau â rheolwyr a chynghorwyr Cymru'n Gweithio.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd Wavehill yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r cyfweliadau, gweithdai ac arolygon, ac yn gwneud y data crai yn ddienw, cyn iddo gael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Wavehill a Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn Wavehill yw Endaf Griffiths.

Cyfeiriad e-bost: endaf.griffiths@wavehill.com

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

**Pa ddata personol sydd gennym ac o ble rydym yn cael y wybodaeth hon?**

Mae data personol yn cael ei ddiffinio o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy gyfeirio at ddynodwr.

Mae Wavehill wedi derbyn eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a, lle mae ar gael, rhif ffôn) naill ai oddi wrth:

- Llywodraeth Cymru yn achos staff rheoli Cymru'n Gweithio; neu
- Gyrfa Cymru yn achos cynghorwyr Cymru'n Gweithio.

Mae Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru yn dal eich gwybodaeth oherwydd eich cysylltiad â darparu gwasanaeth Cymru'n Gweithio. Dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd Wavehill yn defnyddio cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn.

Bydd cyfranogwyr yn cael eu gwahodd trwy e-bost i gymryd rhan mewn cyfweliad MS Teams. Os na cheir ymateb, efallai y bydd Wavehill yn anfon e-bost atgoffa arall neu, os oes gwybodaeth ar gael, yn cysylltu â chyfranogwyr dros y ffôn. Gallwch ddewis cymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn a rhoi eich rhif ffôn i wneud hynny os nad yw Wavehill eisoes wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru neu Gyrfa Cymru.

Ym mhob achos, mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych yn dymuno cymryd rhan na derbyn nodyn atgoffa, yna atebwch yr e-bost gwahoddiad neu rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r rhif ffôn a ddarparwyd a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Nid yw'n ofynnol i chi ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol fel rhan o'r cyfweliad, ac eithrio eich llun os ydych yn cytuno i gyfweliad MS Teams gael ei recordio ar fideo. Rydym yn dymuno recordio cyfweliadau MS Teams am resymau gweithredol. Byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r cyfweliad ddechrau, a chewch gyfle i ddweud wrthym os nad ydych yn fodlon i'r drafodaeth gael ei recordio. Os caiff cyfweliadau eu recordio, bydd data personol yn cael ei ddileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd recordiadau'n cael eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na chaiff trafodaethau eu recordio, ni fydd data personol yn cael ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu ar ôl y cyfweliadau.

Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yna'n ei ddileu o ddata'r ymchwil.

**Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio eich data?**

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarferiad casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir ei gweithredu ynglŷn â'r gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Gallai'r wybodaeth a gesglir yn y gwaith ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i:

- Deall y theori y tu ôl i raglen Cymru'n Gweithio
- Asesu perfformiad ac effaith y gwasanaeth
- Datblygu argymhellion i wella cyflawniad Cymru'n Gweithio a rhaglenni cyflogadwyedd eraill.

**Pa mor ddiogel yw eich data personol?**

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Wavehill bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cyrchu'r data. Mae gan Wavehill ardystiad Cyber Essentials.

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data. Os oes amheuaeth o dorri diogelwch data, bydd Wavehill yn adrodd am hyn i Lywodraeth Cymru a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd Wavehill yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

**Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?**

Bydd Wavehill yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad yw wedi'i ddileu eisoes yn cael ei ddileu gan Wavehill dri mis ar ôl diwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd Wavehill yn darparu fersiwn ddienw o'r data i Lywodraeth Cymru na fydd yn cynnwys gwybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych.

**Hawliau unigol**

O dan GDPR y DU, mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn, mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- I ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- I wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (o dan rai amgylchiadau);
- I'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau);
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

**Gwybodaeth Bellach**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Sean Homer
Cyfeiriad E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.

**Gwerthusiad o raglen Cymru'n Gweithio - cyfweliadau gyda rhanddeiliaid**

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymru'n Gweithio. Nod y gwerthusiad hwn yw asesu pa mor effeithiol y mae Cymru'n Gweithio'n cael ei chyflwyno i'r cynulleidfaoedd targed, darparu gwersi i lywio darpariaeth yn y dyfodol a gwerthuso'r effaith y mae Cymru'n Gweithio wedi'i chael ar gyfranogwyr o ran cyflogaeth, caffael a datblygu sgiliau, a lles.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Wavehill yn casglu gwybodaeth trwy gyfweliadau â rhanddeiliaid strategol a sefydliadau partner.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd Wavehill yn dileu unrhyw ddata personol a ddarparwyd drwy'r cyfweliadau, ac yn gwneud y data crai yn ddienw, cyn iddo gael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Wavehill a Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Wavehill yw Endaf Griffiths

E-bost: endaf.griffiths@wavehill.com

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol sydd gennym a ble rydym yn cael y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr'.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw eich manylion cyswllt. Mae Wavehill wedi derbyn eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a, lle mae ar gael, rhif ffôn) gan un o'r canlynol:

- gan Gyrfa Cymru sy'n cadw eich manylion oherwydd eich cysylltiad â rhaglen Cymru'n Gweithio, a'ch bod wedi cytuno i'ch manylion gael eu rhannu â Wavehill i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn; neu
- eich bod wedi cytuno y gallai eich manylion gael eu rhannu â Wavehill ar ôl i rywun sydd eisoes yn cymryd rhan yn yr ymchwil hwn gysylltu â chi a awgrymodd efallai y byddwch am gymryd rhan.

Bydd Wavehill ond yn defnyddio cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn a ddarparwyd at ddibenion y gwerthusiad hwn.

Gwahoddir cyfranogwyr trwy e-bost i gymryd rhan mewn cyfweliad ar-lein. Os na cheir ymateb, efallai y bydd Wavehill yn anfon e-bost atgoffa arall neu, os oes gwybodaeth ar gael, cysylltwch â'r cyfranogwyr dros y ffôn. Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych yn dymuno cymryd rhan neu gael nodyn atgoffa yna atebwch yr e-bost gwahoddiad, neu rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r rhif ffôn a ddarparwyd, a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Gallwch ddewis cymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn a rhoi eich rhif ffôn i wneud hynny os nad yw Wavehill wedi ei dderbyn eisoes.

Nid yw'r ymchwil hwn yn gofyn am gasglu data personol ychwanegol gennych, ac eithrio ar gyfer eich delwedd os ydych yn cytuno i gyfweliad ar-lein gael ei recordio ar fideo.

Efallai y bydd angen i ni recordio cyfweliadau am resymau gweithredol. Os mai dyma'r achos, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r cyfweliad ddechrau, a chewch gyfle i ddweud wrthym os nad ydych yn fodlon i'r drafodaeth gael ei recordio. Os caiff cyfweliadau eu recordio, bydd data personol yn cael ei ddileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd recordiadau'n cael eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na

chaiff trafodaethau eu cofnodi, ni fydd data personol yn cael ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu ar ôl y cyfweliadau.

Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol yn unig ac yna'n ei ddileu o ddata'r ymchwil.

**Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?**

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir ei gweithredu am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Gallai'r wybodaeth a gasglwyd yn yr ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i:

- Deall y theori y tu ôl i raglen Cymru'n Gweithio.
- Asesu perfformiad ac effaith y gwasanaeth.
- Datblygu argymhellion i wella darpariaeth Cymru'n Gweithio a rhaglenni cyflogadwyedd eraill.

**Pa mor ddiogel yw eich data personol?**

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i Wavehill bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cyrchu'r data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Wavehill yn defnyddio'r data hwn. Mae gan Wavehill ardystiad hanfodion seiber.

Mae gan Wavehill weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data. Os oes amheuaeth o dorri amodau, bydd Wavehill yn adrodd am hyn i Lywodraeth Cymru a fydd yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd Wavehill yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

**Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?**

Bydd Wavehill yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad yw wedi'i ddileu eisoes yn cael ei ddileu gan Wavehill o fewn tri mis i ddiwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

**Eich Hawliau fel Unigolyn**

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn, yn benodol mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- I ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu o'ch data (o dan rai amgylchiadau);
- Cael eich data ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau); a
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

**Gwybodaeth Bellach**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, cysylltwch â:

Enw: Sean Homer
Cyfeiriad e-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru :

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ,

E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.

## Atodiad Tri: Cyd-destun Ychwanegol

Mae dadansoddiad o ganlyniadau marchnad lafur y DU gyfan ar gyfer ffoaduriaid yn seiliedig ar ddata'r Arolwg o'r Llafurlu rhwng 2010 a 2017 yn dangos bod gwahanol fathau o fudo yn gysylltiedig â chanlyniadau gwahanol i'r farchnad lafur[48]. Mae sgiliau mudwyr sy'n ffoaduriaid yn debygol o fod wedi addasu'n llai i anghenion economaidd y gwledydd lletyol o'u cymharu â sgiliau mudwyr â chymhelliant economaidd[49][50]. Un rheswm posibl yw ansicrwydd ynghylch hyd eu harhosiad sy'n dylanwadu ar benderfyniadau am fuddsoddi mewn sgiliau[51]. Mae gan fudwyr sy'n geiswyr lloches gyfraddau cyflogaeth llawer is (51 y cant) na'r gweithlu a aned yn y DU (73 y cant)[52] a'r gweithlu cyffredinol a aned dramor (76 y cant)[53]. Wrth addasu ar gyfer nodweddion demograffig-gymdeithasol fel oedran, rhywedd, addysg, ethnigrwydd a lleoliad preswylio, mae bwlch cyflogaeth yn dal i fod rhwng y rhai a aned yn y DU a'r rhai a aned dramor, gyda gwahaniaeth o 12 pwynt canran. Er ei fod yn lleihau dros amser, mae'r bwlch cyflogaeth i'w weld hyd yn oed yn achos y rhai sydd wedi bod yn byw yn y DU am fwy na 25 mlynedd[54]. Mae'r canfyddiadau hyn ar gyfer y DU gyfan yn cael eu hategu gan arolwg yn 2020 o 252 o ffoaduriaid sydd â hawl i weithio ac sydd o oedran gweithio yng Nghymru. Yn ôl yr arolwg, dim ond 44 y cant o'r ymatebwyr oedd mewn gwaith cyflogedig ar y pryd neu oedd wedi gweithio yng Nghymru yn y gorffennol[55].

*Lefel cymhwyster:*

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae mudwyr yng Nghymru (nad ydynt wedi'u geni yn y DU) yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau lefel 4 (e.e., tystysgrif addysg uwch, prentisiaeth uwch, tystysgrif genedlaethol uwch) neu uwch o gymharu â'u cymheiriaid a aned yn y DU. Mae hyn yn dal i fod yn wir hyd yn oed wrth gyfrif am wahanol broffiliau oedran[56]. Yng Nghymru yn gyffredinol, dywedodd 31.5 y cant o breswylwyr arferol dros 16 oed mai lefel 4 neu uwch oedd eu cymhwyster uchaf[57]. Ym mron pob awdurdod lleol yng Nghymru (ac eithrio 2;

---

48 Kone et al. (2019) Refugees and the UK Labour Market.
49 Brell et al. (2020) The Labor Market Integration of Refugee Migrants in High-Income Countries.
50 Mae mudwyr sydd â chymhelliant economaidd yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at y rhai sy'n symud sydd eisoes yn meddu ar sgiliau sy'n addas ar gyfer anghenion economaidd y gwledydd cynnal, ac sy'n aml â'r gallu i ddechrau gweithio ar unwaith am gyfnod sy'n hysbys.
51 Brell et al. (2020) The Labor Market Integration of Refugee Migrants in High-Income Countries.
52 Kone et al. (2019) Refugees and the UK Labour Market.
53 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (2022).
54 Kone et al. (2019) Refugees and the UK Labour Market.
55 Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.
56 SYG (2023) How qualification levels across England and Wales differ by country of birth.
57 Llywodraeth Cymru (2023) Addysg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021).

Merthyr Tudful a Blaenau Gwent), mae cyfran y mudwyr â chymhwyster lefel 4 neu uwch yn uwch na'r ffigur hwn[58]. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r cyngor gyrfaoedd lefel 6 sydd ar gael drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio fod o werth arbennig i fudwyr yng Nghymru nad ydynt wedi'u geni yn y DU.

*Enillion:*

Yn ôl data'r Arolwg o'r Llafurlu (2010 – 2017)[59], mae mudwyr sy'n geiswyr lloches, sy'n gweithio fel cyflogeion, yn ennill llai ac yn gweithio llai o oriau o gymharu â gweithwyr a aned yn y DU a mudwyr eraill. Ar gyfartaledd, rhwng 2010 a 2017, roedd mudwyr sy'n geiswyr lloches yn ennill £9 yr awr a £284 yr wythnos. Gan addasu ar gyfer ffactorau demograffig-gymdeithasol, mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod mudwyr sy'n geiswyr lloches yn ennill 55% yn llai yr wythnos a 38% yn llai yr awr na gweithwyr a aned yn y DU (ac eithrio unigolion hunangyflogedig) ac yn gweithio 4 awr yn llai[60]. Mae hyn yn awgrymu bod bwlch yn y cymorth sydd ar gael i fudwyr sy'n ceisio lloches yng Nghymru, y gallai Cymru'n Gweithio ei lenwi, i ddarparu cyfleoedd sy'n galluogi unigolion i gyflawni eu potensial.

*Mathau o swyddi:*

Yng Nghymru, mae presenoldeb mudwyr mewn gwahanol sectorau economaidd yn amrywio'n sylweddol o ran eu gwledydd gwreiddiol. Mae gweithwyr o'r UE wedi'u crynhoi'n anghymesur yn y diwydiant gweithgynhyrchu, ac mae gweithwyr o'r tu allan i'r UE wedi'u gorgynrychioli yn y sectorau iechyd a gwaith cymdeithasol a'r sector lletygarwch[61].

Ar lefel y DU gyfan, mae'r rhan fwyaf o fudwyr – ac eithrio'r rhai o wledydd yr UE-14, Gogledd America ac Oceania a Dwyrain a De-ddwyrain Asia – yn dangos lefelau uwch o or-gymhwysedd (neu dangyflogaeth) o gymharu â'u cymheiriaid a aned yn y DU[62]. Mae gweithwyr nad ydynt wedi'u geni yn y DU hefyd yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ran-amser anwirfoddol o ganlyniad i fethu â dod o hyd i swydd amser llawn.

---

58 SYG (2023) How qualification levels across England and Wales differ by country of birth.
59 Kone et al. (2019) Refugees and the UK Labour Market.
60 Kone et al. (2019) Refugees and the UK Labour Market.
61 SYG (2023) Migration and the labour market, country of birth based estimates, England and Wales.
62 Fernández-Reino a Rienzo (2022) Migrants in the UK Labour Market: An Overview.

Yn ôl Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid[63], roedd bron i ddwy ran o dair (63 y cant) o'r ffoaduriaid a gyfwelwyd eisiau gweithio yn yr un proffesiwn ag yn eu gwlad gartref. Serch hynny, roedd 84 y cant hefyd yn fodlon chwilio am waith arall. Gorfodwyd llawer i roi'r gorau i'w dyheadau gan nad oeddent yn gallu dod o hyd i waith a oedd ar gael a oedd yn cyfateb i'w sgiliau a'u profiad. Mae nifer o resymau dros dangyflogaeth. Maent yn cynnwys diffyg sgiliau iaith, agweddau cyflogwyr a gwendid yn y marchnadoedd llafur a strategaethau chwilio am waith[64]. Mae mudwyr hefyd yn teimlo dan bwysau ariannol i gymryd unrhyw fath o waith, hyd yn oed tangyflogaeth, ac yn teimlo na allant ailhyfforddi a dilyn dyheadau oherwydd cost, oedran neu heriau eraill. 'Mae llawer o [ffoaduriaid] yn dadrithio ac, ar ôl wynebu sawl rhwystr neu ddod yn ymwybodol o gost ailgymhwyso, yn ceisio am unrhyw swydd.'[65]

**Anghenion ffoaduriaid a mudwyr a rhwystrau i gyflogaeth**

Mae mudwyr i'r Deyrnas Unedig, boed am resymau lloches neu fel arall, yn wynebu ystod o rwystrau wrth gael mynediad i farchnad lafur y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, mae llawer yn wynebu problemau iechyd meddwl[66] ac mae gofyn iddynt ddysgu iaith newydd, sicrhau'r statws cyfreithiol sy'n caniatáu iddynt weithio, a dod o hyd i gyfle gwaith sy'n addas i'w profiad a'u sgiliau.

Sgiliau Iaith

Mae gallu cyfathrebu yn yr iaith leol yn agwedd bwysig ar integreiddio mudwyr a ffoaduriaid yn effeithiol. Yn ogystal â bod yn hanfodol i ddod o hyd i waith, mae bod yn hyddysg yn Saesneg yn bwysig er mwyn galluogi ffoaduriaid i gwrdd â phobl newydd a chymdeithasu yn ogystal â chael mynediad at wasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau bob dydd fel ysgolion, systemau iechyd a gwasanaethau trafnidiaeth.

Mae graddau amrywiol o hyfedredd Saesneg ymhlith mudwyr a ffoaduriaid ac mae'r rhai sydd wedi ymwneud fwyaf â'r iaith (er enghraifft trwy addysg neu am iddynt dreulio mwy o amser yn byw a gweithio ymhlith siaradwyr Saesneg) fel arfer yn mynegi cyfraddau uwch o

[63] Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.
[64] Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.
[65] Phillimore a Goodson (2006), a ddyfynnwyd yn Holtom, D; Iqbal, H (2020) Astudiaeth Cymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid.
[66] Sefydliad Iechyd Meddwl, 2022.

hyfedredd sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwell yn y farchnad lafur.[67] Yn ôl un astudiaeth, roedd rhuglder yn y Saesneg yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflogaeth 22 pwynt canran ac yn golygu enillion 18 i 20 y cant yn uwch.[68]

O'r herwydd, mae sicrhau bod darpariaeth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ar gael yn hanfodol i gynorthwyo'r unigolion hynny nad ydynt yn hyddysg yn y Saesneg i integreiddio'n effeithiol ac i chwilio am waith.

Cydnabod Hyfforddiant neu Gymwysterau

Problemau o ran cydnabod cymwysterau, sgiliau a phrofiad yw un o'r prif resymau pam y mae llawer o ffoaduriaid a mudwyr yn ddi-waith neu wedi'u tangyflogi. Mae hyn yn arwain at lawer o fudwyr a ffoaduriaid medrus iawn yn gweithio mewn swyddi sgiliau isel, swyddi dros dro neu swyddi â chyflogau gwael, gan effeithio nid yn unig ar yr unigolion (a'u teuluoedd), ond hefyd ar y gymdeithas a'r economi ehangach.[69] Mae'r sefyllfa hon yn cael ei chreu gan yr angen i gydbwyso'r awydd i sicrhau bod gweithwyr sy'n fudwyr yn gallu dod o hyd i waith sy'n cyfateb i'w sgiliau a'u profiad, gan gydnabod hefyd nad oes swyddi priodol bob amser yn hygyrch oherwydd lleoliad a chyfradd y swyddi gwag.

Mae ffoaduriaid a mudwyr yn wynebu heriau wrth gael cydnabyddiaeth i sgiliau a chymwysterau. Fodd bynnag, gall ffoaduriaid yn aml wynebu rhwystrau hyd yn oed yn fwy o ystyried eu bod yn aml yn gadael ar frys heb waith papur perthnasol a'u bod yn gallu cael trafferth cael mynediad i'w sefydliadau perthnasol yn eu gwledydd lletyol.

Llywio systemau cymhleth

Her gyffredin arall y mae mudwyr a ffoaduriaid sy'n ceisio cael mynediad i'r farchnad lafur yn ei hwynebu yw'r anawsterau wrth lywio systemau amrywiol yn llwyddiannus. Yn gyntaf, er mwyn cael mynediad i'r farchnad lafur, mae angen llwyddo i ennill statws cyfreithiol i weithio yn y DU. Mae hon ynddi ei hun yn broses gymhleth a maith ac mae'n un agwedd yn unig ar bolisi mewnfudo sydd y dywedir ei bod yn rhy fiwrocrataidd, yn gyfyngol ac yn ddrud (i fewnfudwyr a chyflogwyr fel ei gilydd).

---

67 Kierans, D. (2021) Integration in the UK: Understanding the Data.
68 Dustmann, C. a Fabbri, F. (2003) Language Proficiency and Labour Market Performance Of Immigrants in the UK.
69 NGO Network of Integration Focal Points (2009) Policy briefing on the assessment of skills and recognition of qualifications of refugees and migrants in Europe.

Yn aml mae angen rhyw fath o gymorth cyflogadwyedd ar y rhai sydd â hawl i weithio er mwyn cael gwaith, fel chwilio am swydd, ysgrifennu CV, cymorth i wneud cais, paratoi at gyfweliad a rhwydweithio. Yn ôl un adroddiad, mae mudwyr di-waith ddwywaith yn fwy tebygol o ddibynnu ar asiantaethau cyhoeddus i chwilio am waith na cheiswyr gwaith a aned yn y DU[70]. Mae hyn yn amlygu'r rôl bwysig y mae'r mathau hyn o wasanaethau cymorth yn ei chyflawni ar gyfer grwpiau o geiswyr lloches a mudwyr. Er hyn, bu beirniadaeth o lawer o raglenni cyflogadwyedd mewn perthynas â'r dirwedd 'wasgaredig' a thameidiog o gymorth a'r canfyddiad bod llawer yn methu ag ystyried yr anghenion cymorth penodol sydd gan ceiswyr gwaith sy'n fudwyr ac yn ffoaduriaid[71].

Rhwystrau Diwylliannol

Mae gwahaniaethau diwylliannol a diffyg cyfalaf diwylliannol yn rhwystr arall y mae ffoaduriaid yn aml yn ei wynebu, sy'n eu rhwystro rhag integreiddio i'r farchnad lafur[72]. Er enghraifft, mae gwahaniaethau diwylliannol mewn dulliau cyfathrebu, sy'n amlygu eu hunain yn y ffyrdd y mae ymgeiswyr yn cyflwyno eu sgiliau yn ystod y broses recriwtio[73]. Efallai hefyd nad oes gan ffoaduriaid a mudwyr wybodaeth am ddiwylliant gwaith lleol[74].

Gwahaniaethu

Yn olaf, gall mudwyr gael eu gwahaniaethu yn eu herbyn yn y farchnad lafur am nifer o resymau. Mae gwahaniaethu yn digwydd nid yn unig oherwydd eu gwlad wreiddiol, ond hefyd oherwydd nodweddion fel ethnigrwydd, lefel sgiliau a chrefydd. Mae hyn yn golygu nad yw pob mudwr yn cael ei effeithio i'r un graddau[75].

Yn aml nid oes gan bolisïau gwrth-wahaniaethu ac, i ryw raddau, bolisïau gwrth-camfanteisio y pŵer angenrheidiol i orfodi eu diben tybiedig ac, er y gellid eu hystyried yn

---

[70] Kone et al. (2019) Refugees and the UK Labour Market.
[71] Calo et al. (2022) "You have to work…but you can't!": Contradictions of the Active Labour Market Policies for Refugees and Asylum Seekers in the UK.

[72] Udayar, S. et al. (2021) Labour market integration of young refugees and asylum seekers: a look at perceived barriers and resources.

[73] Crerar, C. (dim dyddiad) What are perceived to be the major barriers to employment facing the asylum seeker community in Glasgow and how do guidance and other agencies work with customers and each other to address them?.
[74] Crerar, C. (dim dyddiad) What are perceived to be the major barriers to employment facing the asylum seeker community in Glasgow and how do guidance and other agencies work with customers and each other to address them?.
[75] The Migration Observatory (2020) Migrants and discrimination in the UK.

hwyluswyr, mae diffyg buddsoddiad yn y polisïau hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar yr effaith y gallant ei chael[76].

**Adolygiad o arferion gorau o ran cymorth i ffoaduriaid a mudwyr**

Sicrwydd cyfreithiol a mynediad cyflym i'r farchnad lafur

Dangoswyd bod rheoliadau mwy cynhwysol o ran mynediad ir farchnad lafur, sy'n hwyluso mynediad cyflym ffoaduriaid a mudwyr i'r farchnad lafur, yn gwella canlyniadau cyflogaeth. Yn fwyaf diweddar mae hyn wedi'i nodi fel un o'r prif resymau wrth lwyddo i integreiddio ffoaduriaid o Wcráin ledled Ewrop[77], ond nodwyd yn flaenorol hefyd y bu hyn yn fuddiol yn yr Almaen[78] a'r Swistir[79]. Gorau po gyflymaf y mae ffoaduriaid a mudwyr yn cael caniatâd i weithio, gan fod amseroedd aros hir yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u cymhelliant, tra bod eu sgiliau'n fwy tebygol o grebachu[80].

Agwedd arall ar hwyluso trosglwyddiad cyflym i farchnad lafur y wlad letyol yw nodi a dilysu sgiliau a chymwysterau/cymwysterau yn gynnar. Yn aml nid oes gan ffoaduriaid dystiolaeth ffurfiol o'u cymwysterau oherwydd eu sefyllfa, fel dianc rhag perygl neu gyrraedd yn bwrpasol heb ddogfennau. Mae cyflogwyr hefyd yn aml yn anghyfarwydd ag amgylcheddau addysgol a busnes gwlad wreiddiol ffoaduriaid a mudwyr. Felly, mae defnyddio offer a fframweithiau asesu sgiliau effeithiol ar gyfer cydnabod rhinweddau tramor yn hanfodol i leihau'r ansicrwydd wrth i gyflogwyr gyflogi ffoaduriaid a mudwyr[81]. Ledled Ewrop, defnyddiodd IKEA ddulliau 'sgiliau yn gyntaf' o asesu sgiliau nad ydynt yn dibynnu ar wybodaeth mudwyr o iaith y wlad letyol er mwyn helpu i reoli argyfwng ffoaduriaid Wcráin[82].

---

[76] Valfort, M-A. (2018) Do anti-discrimination policies work?.
[77] Fforwm Economaidd y Byd (2023) Enabling the Economic Inclusion of Refugees: Lessons on Providing Refugees with Timely Access to Labour Markets.
[78] Y Swyddfa Gartref (2019) Integrating refugees: What works? What can work? What does not work? A summary of the evidence.
[79] Slotwinski, M. et al. (2019) Are asylum seekers more likely to work with more inclusive labor market access regulations?.
[80] Fforwm Economaidd y Byd (2023) Enabling the Economic Inclusion of Refugees: Lessons on Providing Refugees with Timely Access to Labour Markets.
[81] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (2018) Engaging with Employers in the Hiring of Refugees.
[82] Fforwm Economaidd y Byd (2023) Enabling the Economic Integration of Refugees: Lessons learned on refugee employment and employability from the rapid response to Ukraine.

Datblygu sgiliau personol

Gall ffoaduriaid a mudwyr gyrraedd gydag amrywiaeth o faterion y mae angen cymorth arnynt, gan gynnwys trawma, materion iechyd eraill, diffyg sgiliau iaith ac wynebu gofynion sgiliau sy'n wahanol iawn i'w gwlad wreiddiol.

Dangoswyd bod sgiliau iaith yn ffactor allweddol ar gyfer integreiddio ffoaduriaid a mudwyr yn y farchnad lafur[83]. Rhaid i ddysgu iaith felly hefyd gyfrif am yr ystod eang o anghenion a lefelau sgiliau ymhlith y boblogaeth o fudwyr, gan sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i ddosbarthiadau (yn enwedig menywod a rhieni â phlant) ar gyflymder ac yn y fformat sy'n briodol i'w lefel.[84]

Yn ogystal, gall hyfforddiant iaith ar sail galwedigaeth benodol eu hwyluso i integreiddio i'r farchnad lafur, fel y dangoswyd yn Sweden[85]. Mae cael mynediad i ddosbarthiadau iaith cyn gynted â phosibl, ac mewn dosbarthiadau â chymysgedd o genhedloedd, yn arbennig o effeithiol ac yn darparu manteision ychwanegol ar ffurf gwella llesiant, adeiladu rhwydwaith a chydlyniant cymunedol[86].

Cymorth wrth baru swyddi

Mae nifer o heriau o ran paru ffoaduriaid a mudwyr â swyddi addas. Mae'r pellter daearyddol rhwng lleoliad mudwyr a chyfleoedd gwaith addas neu ddewis gyfleoedd gwaith yn un her. Mae’n bosibl y bydd ffoaduriaid neu fudwyr sy’n cael eu hadsefydlu i ardaloedd gwledig yn ei chael yn anodd cael mynediad at gyflogaeth oherwydd diffyg seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus[87]. Felly, mae sawl sefydliad wedi awgrymu y dylid ceisio paru ffoaduriaid yn seiliedig ar eu proffiliau sgiliau ac anghenion marchnad lafur cymunedau er

[83] Degler, E. et al. (2017) Integrating Refugees into the Labour Market - Where Does Germany Stand?.
[84] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (2018) Engaging with Employers in the Hiring of Refugees.
[85] Y Swyddfa Gartref (2019) Integrating refugees: What works? What can work? What does not work? A summary of the evidence.
[86] Degler, E. et al. (2017) Integrating Refugees into the Labour Market - Where Does Germany Stand?.
[87] Degler, E. et al. (2017) Integrating Refugees into the Labour Market - Where Does Germany Stand?.

mwyn eu hwyluso i integreiddio i'r farchnad lafur[88] [89]. Mae rhai gwledydd eisoes yn dewis lleoliadau gwasgaru priodol yn seiliedig ar lefel addysg a phrofiad gwaith ffoaduriaid[90].

Her arall yw diffyg rhwydweithiau a chyfalaf cymdeithasol mudwyr yn eu gwledydd lletyol, a all eu hatal rhag dod i wybod am swyddi addas. Un dull y profwyd ei fod yn llwyddiannus wrth ymdrin ag argyfwng ffoaduriaid Wcráin oedd yr ymdrech i sicrhau bod swyddi gwag yn weladwy i ffoaduriaid[91]. Fel a nodwyd yn Adran 4, mae Cymru'n Gweithio wedi ceisio gwneud hyn drwy gynnig rhestrau wedi'u cyfieithu o gyfleoedd gwaith mewn gwahanol sectorau.

Paratoi'r amgylchedd gwaith

Mae gweithio ac ymgysylltu â chyflogwyr a chyrff proffesiynol yn hanfodol ar gyfer cefnogi ffoaduriaid a mudwyr i mewn i waith. Er mwyn sicrhau bod ffoaduriaid a mudwyr yn llwyddo i integreiddio'n economaidd, mae gofyn i gyflogwyr fod yn agored ac yn llawn cymhelliant i'w recriwtio[92]. Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn tueddu i fod yn agwedd sy'n cael ei hesgeuluso i raddau helaeth ym maes cymorth i fudwyr ond caiff effaith hollbwysig ar integreiddio ar lefel leol a rhyngbersonol[93]. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi ariannu prosiect sy'n llwyddo i ddarparu cymorth cynhwysfawr i fentrau a sefydliadau sy'n dymuno cyflogi ac integreiddio ffoaduriaid yn eu gweithleoedd[94].

Roedd helpu mudwyr i ymsefydlu yn eu lleoliad newydd, y tu hwnt i'r gweithle, hefyd yn fuddiol. Dangoswyd bod cydlynu ymdrechion partneriaid a chyflogwyr yn y gymuned i ddarparu cymorth cyfannol yn effeithiol wrth helpu ffoaduriaid o Wcráin i integreiddio'n gyflym i'r farchnad lafur.[95] Mae partneriaethau o'r fath wedi galluogi cwmnïau i roi dulliau recriwtio ac ymuno wedi'u teilwra ar waith, a darparu ar gyfer cymorth ehangach ym maes

[88] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (2018) Engaging with Employers in the Hiring of Refugees.
[89] Y Swyddfa Gartref (2019) Integrating refugees: What works? What can work? What does not work? A summary of the evidence.
[90] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2016) Making Integration Work: Ffoaduriaid ac eraill sydd angen eu hamddiffyn.
[91] Fforwm Economaidd y Byd (2023) Enabling the Economic Integration of Refugees: Lessons learned on refugee employment and employability from the rapid response to Ukraine.
[92] Gloster, R. a Wimalasiri, V. (2022) Supporting refugees into work: What can we do better?.
[93] REST (dim dyddiad) Refugees Employment Support and Training: Good Practice Brochure.
[94] REST (dim dyddiad) Refugees Employment Support and Training: Good Practice Brochure.
[95] Fforwm Economaidd y Byd (2023) Enabling the Economic Integration of Refugees: Lessons learned on refugee employment and employability from the rapid response to Ukraine.

tai, cymorth seicolegol a chymorth drwy gydol y broses weinyddol[96]. Mae partneriaethau sy'n cyfuno amlygiad yn y gweithle â chymorth eang yn arbennig o addawol.[97]

[96] Fforwm Economaidd y Byd (2023) Enabling the Economic Integration of Refugees: Lessons learned on refugee employment and employability from the rapid response to Ukraine.

[97] Fforwm Economaidd y Byd (2023) Enabling the Economic Integration of Refugees: Lessons learned on refugee employment and employability from the rapid response to Ukraine.

## Atodiad Pedwar: Newidynnau a ddadansoddwyd

- Blwyddyn ymuno
- Hyd y cymorth
- Ffynhonnell atgyfeirio
- Atgyfeirio gan sefydliad
- Statws wrth ymuno
- Ward
- Awdurdod Lleol
- Dangosydd trefol gwledig
- Grwpiau trefol
- Oedran (ar gael ar gyfer data 2019-2021 yn unig)
- Grŵp oedran
- Ethnigrwydd
- Rhywedd
- Yn anabl
- Iaith yr aelwyd
- Lefel cymhwyster uchaf
- Dewis iaith lafar
- Dewis iaith ysgrifenedig
- Mudwr gorfodol, ffoadur, ceisiwr lloches
- Gwlad wreiddiol
- Ymuno fwy nag unwaith o fewn blwyddyn
- Materion yn ymwneud â chymhelliad
- Prydau ysgol am ddim
- Cwricwlwm amgen
- Materion yn ymwneud â sylweddau
- Presenoldeb ysgol gwael neu ddim presenoldeb
- Saesneg yn iaith ychwanegol
- Cyn-filwr neu deulu'r lluoedd arfog
- Saesneg fel iaith ychwanegol
- Materion tai neu ddigartref
- Plant sy'n derbyn gofal neu bobl sy'n derbyn gofal
- Gofalwr
- Rhiant sengl ifanc neu feichiog
- Mudwr gorfodol arall
- Ffoadur
- Ceisiwr lloches
- Natur wledig
- Gwasanaeth prawf
- Yn y carchar
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid - ymddygiad troseddol
- Cymorth
- Un i un - nifer
- Un i un - hyd
- Cymorth CWC - nifer
- Cymorth CWC - hyd
- Cyswllt eiriolaeth - nifer

- Cyswllt eiriolaeth - hyd
- Rhyngweithiadau
- Rhyngweithiadau wyneb yn wyneb
- Rhyngweithiadau - e-bost
- Rhyngweithiadau - llythyr
- Rhyngweithiadau - gwasanaeth negeseua
- Rhyngweithiadau - ffôn
- Rhyngweithiadau - negeseuon testun
- Rhyngweithiadau - fideo
- Rhyngweithiadau - gwe-sgwrs
- Rhyngweithiadau - gweminar
- Atgyfeiriadau
- R mynediad
- R prentisiaeth
- R busnes cymru
- R cyngor ar bopeth
- R coleg
- R coleg cyfrifon dysgu personol
- R cymunedau am waith a mwy
- R hyfforddi cyflogadwyedd
- R rhaglen sgiliau cyflogadwyedd
- R cyflogaeth
- R ymgysylltiad
- R prosiect esf
- R digwyddiad
- R cymorth tai
- R canolfan byd gwaith taith ieuenctid
- R tsc+ datblygu
- R tsc+ cyflogaeth
- R tsc+ ymgysylltiad
- R canolfan byd gwaith
- R tsc gwaddol
- R darparwr hyfforddiant dysgu
- R lefel 1
- R darpariaeth awdurdod lleol
- R arall
- R pace
- R prosiect carchar
- R react iii
- R react +
- R hunan-gymorth
- R sgiliau i lwyddo
- R gwasanaethau cymdeithasol
- R haf hwylus
- R asiantaeth cymorth
- R uk enic
- R undeb
- R prifysgol
- R gwaith gwirfoddol
- R gwasanaeth ieuenctid